"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1878. [RHIF 68.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Gogoniant Duw yw ei ddaioni	169
Arweiniad i'r Testament Newydd	173
Y Prif Rwystrau ar ffordd Undodiaeth, a'r modd gorau i'w symmud ymaith	177
Cyssuron yr Efengyl	180
Ymddygiad Gwarthus Offeiriad	182
Tanchwa Abercarn	184
Adolygiad	185
Aben Hassan– Hanesyn Persiaidd	189
Hanesion	190
Priodas.—Marwgofion	191
Barddoniaeth	192

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1878. [RHIF. 68.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

GOGONIANT DUW YW EI DDAIONI.

PREGETH GAN Y PARCH. J. JOSEPH GEORGE, ABERDAR.

"Yntau a ddywedodd, Dangos i mi, atolwg dy ogoniant."—Exodus xxxiii. 19.

DENGYS hanes i ni fod tuedd yn moreu oes y byd i amgylchu symmudiadau personau o bwys, â rhyw ddirgelwch ofnadwy; i wneuthur eu gweithredoedd o feiddgarwch neu o ewyllys da yn fwy nag oeddynt; ac i briodoli iddynt adnabyddiaeth â'r duwiau, neu hyd y nod berthynas â hwy. Rhoddir rhyw ystyr difrifol i holl fanylion bychain eu bywyd. Mae eu gweithredoedd yn fwy nâ dynol, perchir eu dywediadau fel lleferydd yr oraclau. Nid yw hanes yr Iuddewon yn rhydd o ddarluniadau chwedlonol, ac arwyr wedi eu gwisgo â doniau goruwchddynol. Yn yr Hen Destament, yn neillduol yn y rhanau boreu o hono, ceir llawer iawn o'r elfen draddodiadol. Mae y doeth, y da, y mawr, yn cael eu hamgylchu â dirgelwch, gwyrth, a rhyfeddod. Mae un yn llettya angylion, ac yn derbyn hyspysrwydd am y dinystr oedd ar ddyfod ar ddinasoedd; mae un arall yn ymdrechu (ymgodymu) â Duw. Wyneb yn wyneb mae Jehofah yn ymddyddan â Moses fel un yn ymddyddan â chyfaill.

Odditan y wisg ddychymygol, y mae, fodd bynag, nodau o ddyddordeb gwirioneddol, hadau o wirionedd, a meddyliau teilwng o ystyriaeth ddifrifol. Yn yr hanes o'r hwn y mae ein testyn wedi ei gymmeryd, mae olion, nas gellir eu camsynied, o draddodiad. Symmuder i ffwrdd yr elfenau dyeithr ac mae etto yn aros—Moses, y dyn gwirioneddol, dyn o gynnydd, dyn sydd yn gadael y byd yn well nag y cafodd ef; y dyn o ddyheadau ardderchog, dyn sydd yn bryderus am wybodaeth a goleuni ar bethau tywyll, dirgel ac anamgyffredadwy. Yr oedd yn ddysgedig yn holl ddoethineb yr Aifftiaid; wedi ei gyssegru i'w

hoffeiriadaeth; wedi ei arwain i mewn i holl ddirgelion eu *caste*; yn hyddysg yn yr holl ofergoelion gwag, trwy y rhai y cedwid y bobl mewn caethiwed meddyliol a moesol; yr oedd wedi treiddio i mewn i'r lle sancteiddiolaf; wedi gwneuthur prawf ar ddilysrwydd chwedloniaeth paganaidd, ei gwarth a gallu ei duwiau. A chan esgyn i ben llwyfan (*platform*) arall, mynai dreiddio i mewn i gymmylau tewion y tywyllwch a amgylchynant Jehofa, ac a'i cuddiant rhag llygad marwol. Mynai ddadrys dirgelion y bodolaeth dwyfol, a chael allan hanfod yr Anfeidrol.

Mae yn gweddio—Dangos imi dy ogoniant. Dyma weddi dynoliaeth, gweddi cariad, ffydd, duwioldeb, addoliad. Y meidrol a'r marwol yw yn chwilio am yr anfeidrol a'r anfarwol. Ceisia'r meddwl dynol ddadrys yr holl ddirgelion; tori pob cwlwm gordiaidd*; esgyn ysgol Jacob a gwneuthur ymchwiliadau yn y byd ysprydol; ceisia farcio ymddyrchafiad dyn, pan y mae yn cyfeirio ei gamrau dros lwybr garw amser i fôr tragwyddoldeb; ceisia wahaniaethu rhwng bywyd a marwolaeth; rhwng mater ac ysprydol; y creadur a'r Creawdwr. "Dangos i mi dy ogoniant" ydyw gweddi ddystaw pob enaid sydd yn ceisio doethineb ac yn caru gwirionedd. Er cael ateb, a chael allan Dduw i berffeithrwydd, chwilir natur oll yn ei hagweddau a'i dosparthiadau lluosog. Gwylir dros weithrediadau cyfreithiau natur, y rhai a ddylanwadant ar ddygwyddiadau naturiol ac a'u newidiant, ac a'u rheolant, a gwneir ymchwiliad iddynt gan theist ac atheist, gydag un amcan dirgel, er feallai anymwybodol. Edrycha un ar y natur brydferth, allanol, tra y gwibia un arall o seren i seren, gan fesur a chyfrif eu pellderau perthynasol, eu dylanwad y naill ar y llall, ar y ddaear, ac ar ddyn, ei harglwydd; tra mae trydydd yn twrio i grombil y ddaear, am fwy nâ chyfoeth mwnawl, i geisio cael allan olion yr Hollalluog ar dywod amser; tra mae un arall drachefn yn ystyried y cariad rhyfeddol, a'r daioni ag y mae pob peth yn ei adlewyrchu. Mae yr holl ymofyniad yma yn nodi allan yr hyn ddylai fod yn weddi bywyd, "Dangos i mi dy ogoniant." Mae yr ateb i'r weddi yma yn addysgiadol, hyd y nod os *intuition* yr enaid yw, neu freuddwyd: "Gwnaf i'm holl ddaioni fyned heibio o flaen dy wyneb." Gwnai dyn gwagogoneddus feallai nodi allan helaethrwydd ei feddiannau, ei gyfoeth, ei ddysg, a'i ddoethineb; mawredd ei ddeall, ei allu, ei lywodraeth, fel ei ogoniant. Ond nid yw y Creawdwr yn galw sylw at helaethrwydd ei feddiannau; neu at ei weithredoedd rhyfeddol peirianwaith y bydysawd; neu at y doethineb a'i lluniodd, neu'r gallu a'i creodd ac sydd etto yn ei ddal i fyny. Dim o'r rhai hyn. Gwnaf i'm holl ddaioni fyned heibio o flaen dy wyneb. Daioni Duw yw gogoniant Duw. Felly y mae i ni yn bob peth; felly yr ydym yn cael ein tynu ato. Heb hyn, ni fuasai yn ddim i ni. Cawsem ein gyru oddiwrtho. Gyda daioni fel rhyw ail briodoledd ni allasem ei garu; gwnelai y galon gau yn ei erbyn. Dichon iddo ddeffroi ofn, ond dim gwarogaeth parchus, siriol. Duw-

* Medrai Gordius, brenin Phrygia, ffurfio cwlwm mor ddyrys nas gallai neb ei ddadyrs.

dod o ddeall—duwdod fyddai yn ddoethineb ac yn allu, o ba werth fyddai i chwi ac i minau? Pe gwnai myfyrio ar y nefoedd â'i fyrdd o gydsêr ddim ond ein cyffroi i syndod, pa les fyddai? Dichon i ni sefyll yn syn mewn braw. Trwy amlygiadau o allu a doethineb yn unig, pa deimladau ardderchog ac adfywiol a gyffroir? Eler dros y byd yma, ïe dros y bydysawd, a phe dygid y cyfryw briodoleddau yn unig gerbron, er dal i fyny y meddwl, a dim daioni; nis gallai fod dim gwelliant meddyliol, dim cynnydd, a byddai perffeithrwydd yn ymddangos yn ffugbeth yn unig. Dim ond yn eu cyssylltiad â chariad a daioni mae priodoleddau gallu a daioni o un gwerth moesol. Dichon i ni weled cyfoeth, haelioni a gallu rhyw dywysog mawr, a gwybod ffynonell ei awdurdod a bod yn waeth yn hytrach nag yn well o'r wybodaeth, oni cheir yno ddaioni hefyd. Ond bydded daioni yn rhan o'r oll a ddaw i gyfarfod â'r llygad, a chyffroir y serchiadau i gariad; a chynnyrchir dymuniad i feddiannu yr un briodoledd ddwyfol. Mae pa beth bynag na fyddo yn dwyn argraff daioni, mewn ystyr foesol, yn ddiwerth, yn gymmaint nad oes ynddo ddim gallu ataliol i ddylanwadu ar y nwydau; dim i argraffu meddyliau pur ac amcanion uchel ar ddynion; nid oes ynddo ddim prydferthwch fel ag i beri i ddynion ei ddymuno. Felly "Daioni Duw yw ei ogoniant." Mae yn pelydru trwy bob seren, ac yn goreuro tudalenau santaidd y greadigaeth. Er mwyn gwelliant dynol mae yr holl briodoleddau moesol ereill yn israddol. I'r pwrpas hyn mae Duw o hyd yn peri i'w ddaioni fyned heibio o flaen pob meddwl yn ol mesur gallu pob un i'w ganfod a'i gyfaddasu iddo ei hun. Yn mhob man y mae profion fod yr Arglwydd Dduw yn drugarog a graslawn, yn hir ymarhous, yn helaeth mewn daioni a gwirionedd, yn cadw trugaredd i filoedd, gan faddeu anwiredd a chamwedd a phechod: mor wirioneddol

> "Lle treigla dyfroedd Affrig
> Eu tywod aur i lawr;"

a'r lle y mae swn yr efengyl yn cael ei glywed yn barhaus. Os nid ag ef ei hunan, fe ddygir dynion wyneb yn wyneb â'i ddaioni—hwn ydyw ei ddysgleirdeb, y gorchudd sydd drosto, ac yn gwahardd i ni edrych arno. Er nad ydym yn ei weled trwy y gorchudd, gallwn ei adnabod wrtho. Mae yr allanol yn dadguddio y mewnol. Oddiwrth aroglau balmaidd pêrsawyr y blodau, gallwn yn dda ffurfio barn am danynt, eu hedmygu, ac ymhyfrydu ynddynt, er yn anwybodus o'u priodoleddau hanfodol. Yn awr, os yw Duw yn dewis dadguddio ei hunan yn neillduol trwy ei ddaioni, oni ddylai'r meddwl dynol fyfyrio yn benaf ar y briodoledd hono. Dywed athronwyr wrthym mae y pethau mwyaf angenrheidiol tuag at adeiladu y corff dynol ydynt y pethau mwyaf cyffredin a lluosog. Onid felly mae hefyd yn y byd moesol ac ysprydol? Onid yw y briodoledd ddwyfol hono ag y mae Duw yn ei gwneuthur i fyned heibio o flaen ein wyneb wedi ei bwriadu i fod yn arweinydd ac yn rheol ffydd a dyledswydd i ni. Ei eiddo ef ydyw yr addysgiadau goreu a'r llwybrau dyogelaf; a phe telid y sylw dylad-

wy iddynt, buan y torid y llo aur, y darostyngid balchder y deall a'i wneuthur yn iswasanaethgar i'r ddoethineb uwch; ac yn fuan yr amlygid ar y ddaear tangnefedd ac i ddynion ewyllys da. Yr ymarferol yw yr elfen flaenaf yn ngwasanaeth Duw. Daioni yw y gallu sydd yn taro y tant, ac y mae dirgryniadau y gallu hwnw yn gwneuthur cerddoriaeth cydgordiol yn y nef, a thrwyddo y mae adseiniau melusber yr angylion yn ei ddychwelyd i enaid y dyn da. O bob gweddi ddynol, o bob cerddoriaeth ddaearol, yr un a gyrhaedda bellaf i'r nefoedd yw cariad calon gariadus; calon ag sydd yn caru Duw, am mai cariad yw, a daioni yw; calon sydd yn caru dyn am ei fod yn frawd sydd yn cyd-ddyoddef, brawd sydd yn fab i'r un Tad anfeidrol. Calon gariadus, calon dduwiol yw, mae y ddau yn derbyn eu bywyd o'r un cyflawnder gogoneddus; mae y ddau yn blanhigion wedi eu gosod ar lan yr afonydd dyfroedd, ac yn dwyn eu ffrwyth yn ei iawn bryd. Daioni, gweithrediad o iawn-dyfiant yw, a natur ganddo o'i du. Mae pob peth yn y byd naturiol mewn undeb â'r dyn da. Mae dylanwadau balmaidd natur o du rhinwedd, a'u hymddangosiadau dychrynllyd yn myned heibio o flaen wyneb yr un sydd yn ofni Duw, fel arwyddion o ddaioni Duw, gan adael yr enaid mewn llawn tangnefedd, ac yn dawel fel tawelwch môr. Mae y tân trydanol sydd yn fflachio trwy yr awyrgylch, gan ei buro o bob sawyr anhyfryd, a'r teimladau dyrchafol a ruthrant ar yr enaid gan ei godi allan o laid hunangarwch—y naill fel y llall yn fyned heibio ger ein wyneb o ddaioni Duw—ac yn adlewyrchiadau o'i ogoniant. Mae daioni yn cyfyngu natur ac yn cyfyngu dyn. Nid yw yn adwaen un diffyg o undeb. Daioni, goleuni yw. Y rhai a rodiant ynddo maent yn un. Ni tharawant eu traed un amser wrth gareg; ond gwneir hyny gan y rhai a grwydrant y tu allan i'r cylch ac a obeithiant gael goleuni a nerth a chyssur mewn rhyw lwybr arall. Mae y dull cyffredin o ddibrisio daioni yn arwain i gyfeiliornadau marwol. Mae dynion trwy hyny yn camgymmeryd gwir amcan a llwybr bywyd, yn ymruthro tua'r diwedd, gan esgeuluso y dechreu. Eu dymuniad yw dedwyddwch, yr hwn ydyw ffrwyth daioni, a chyfaill anwahanadwy perffeithrwydd, ac a roddir allan bob yn ychydig fel y byddo yn cael ei haeddu. Ymddylifa o'r ffynonau tragwyddol i'r graddau y byddom yn cynnyddu mewn ysprydolrwydd; ond nid yw ei gyflawnder yma. Nid oes llwybr breninol yn arwain iddo. Nid ydym yn byw am ddedwyddwch. Yr ydym yn byw am gymmeriad, am ddaioni. Nid yw Duw yn cael ei ddarlunio fel yn gwneuthur i'w ddedwyddwch i fyned heibio o flaen wyneb ei was Moses, ond ei ddaioni, fel y peth y dylai ymgyrhaedd ato. Dyweded y credoau a ddywedont, gwneuthur yn dda a byw yn dda yw yr unig *bassport* i'r nefoedd. Nid oes ddrws arall. Yr hwn a fyno goron cyfiawnder, rhaid iddo ei henill, ac nid gobeithio meddiannu eiddo rhywun arall. Cyfrifiad, ffolineb yw; haeddiant, hud, magl, twyll y gelyn mawr yw.

Mae daioni Duw yn myned heibio gerbron dynion mewn ffurfiau a lleoedd addas i'w gwybodaeth a'u goleuni. Gallai Moses ei weled yn oreu oddiar ochr y mynydd, ac yn mhlith y creigiau ysgythrog, a'r

serthfaoedd safnrythog; wedi ei amgylchu gan y dychrynadwy. Mae y byd yn llawn o gyfryngau addasedig i bob cyflwr. Ar y mynydd hwn, a chan y person acw, mae Duw yn cyhoeddi ei enw ac yn amlygu ei ddaioni. Yn neillduol y mae yn peri i fflam sanctaidd fywiol i fflachio drachefn a thrachefn trwy galonau o gyffelyb anian. Mewn cymmundeb ag ychydig ddynion, naill ai trwy eu meddyliau ysgrifenedig, neu trwy eu gwynebau dysglaer a'u calonau gwresog, teimlwn ein hunain yn mhresenoldeb gallu dwyfol a chariad gorlifiadol sydd yn ein swyno ac yn ein denu—enaid yn anadlu purdeb—cyfrwng trwy yr yr hwn y mae Duw yn gwneuthur i'w ddaioni fyned ger ein bron. Yn mlaenaf o'r rhai hyn y mae Crist.

Etto, ar ol ein holl ymdrechion i ganfod Duw ac amgyffred y daioni sydd yn ein hamgylchynu, mor gyfyngedig yw ein gwybodaeth: mor wan yw ein hamgyffrediad o bethau dwyfol! Yr enaid puraf wedi ei gyfyngu mewn cnawd, nid yw yn cael ond cipdrem, a hyny o'r allanol, neu y "tu cefn." Mewn rhyw awr bwysig, rhyw godiad haul ar yr enaid, mae ei gysgod yn pasio heibio drosom, megys rhyw gwmwl dros y ddaear isod. Erys yr argraff ac yr ydym yn ei adwaen yn well. Mae yr adegau yma yn rhai pwysig yn mywyd a thyfiant yr enaid—profiadau na fethant ac na fyddant farw byth. Yn wan yn wir, ond ffurflant ffyn yr ysgol, trwy offerynoliaeth y rhai yr esgynwn o'r ddaear, yr ymgodwn uwch mynyddau o bechod a thrueni, ac y cymmerwn i mewn awelon pêr a phur, ac adloniadol anadl Duw ei hunan. A fynwn ni ychwaneg o'r profiadau yma, yna rhaid i ni weddio gyda Solomon, "Dyro i ni ddoethineb," gyda Moses, "Dangos i ni dy ogoniant." Ond gweddi, gweithred yw; gweddi, bywyd yw. Bod, byw, gwneuthur yw.

Yn naioni Duw

Cais heddwch, gobaith, a gorphwysfa byth;
Ac fel gwna'r eryr hofian uwch ei nyth,
A dwyn ei bychain ar ei hedyn chwai,
Yn weinion ac yn ddall, hyd byrth y nef:
Dy Arglwydd a dy Dduw, gwna felly Ef,
I'r hwn dros fyth mae llawer heulwen gref
Yn bwrw ei gwawl,—Cais Ef, a thi a'i cai!

ARWEINIAD I'R TESTAMENT NEWYDD,

GAN Y PARCH. H. S. SOLLY, M.A., PADIHAM.

(*Parhad o Rifyn Awst, tud.* 126.)

XIV.

Dosran III.

Yr ydym yn dysgu oddiwrth ysgrifeniadau nad ydynt yn gynnwysedig yn y Testament Newydd, fod y ddadl rhwng y Cristionogion Iuddewig a Phaulaidd wedi myned yn waeth ac yn fwy chwerw yn yr hanner ddwyreiniol o'r Ymerodraeth Rufeinig, a'i bod wedi terfynu yn unig gyda dilead y dosparth blaenaf, a buddugoliaeth canlynwyr Paul. Yr

oedd yspryd mwy heddychol wedi bodoli bob amser yn y gorllewin, a gwnaed ymdrech ddifrifol oddeutu diwedd y ganrif gyntaf, nid yn unig i gymmodi y pleidiau gwrthwynebol, ond hefyd i ddileu pob adgof am y gwahaniaethau oeddent wedi cymmeryd lle yn y gorphenol. Yn Efengyl Marc yr ydym wedi sylwi yn barod fod yr awdwr yn cyfnewid neu yn gadael allan lawer a fyddai yn dramgwydd i'r Cristionogion Cenedlig, ac mae genym y gorchwyl yn awr o gymmeryd i fyny yr hyn a ellir alw yn Efengyl Baulaidd, sef:—

Yr Efengyl yn ol Sant Luc.

Crybwyllir am Luc yn Philemon, ad. 24, fel cydweithiwr gyda Paul; ac mae ei enw yn dygwydd etto yn Col. iv. 14, fel y "physygwr anwyl," wrth ochr Paul yn ystod ei garchariad yn Rhufain. (Cymh. 2 Tim. iv. 11.) Mae traddodiad boreuol yn siarad am dano fel cydymaith anwahanadwy Paul, ac wedi cyssylltu ei enw â'r drydedd Efengyl, ond mae'n anmhossibl yn awr i ddweyd pa ran a gymmerodd yn ei chyfansoddiad. Yn ffodus, mae y cynnwysiad yn fwy pwysig nâ'r awduraeth. Mae y pedair adnod flaenaf yn dweyd wrthym lawer iawn. Ymddengys fod "llawer" yn barod wedi treio eu llaw i ysgrifenu cofnodion o hanes yr Iesu, ac nad oedd yr ysgrifenwyr yma eu hunain yn llygad-dystion o'r dygwyddiadau, ond wedi derbyn hyspysrwydd yn uniongyrchol oddiwrth rai oedd yn llygaddystion, ond rhai yn debygol ag oeddent yn ddynion anllythyrenog, ac yn annghymhwys i ymgymmeryd â gwaith llenyddol. Nid yw ein hawdwr yn ymfoddloni ar ddim oedd wedi ei gynnyrchu hyd yn hyn, ac mae yn eistedd i lawr gyda Matthew a Marc o'i flaen, yn gystal â chyfansoddiadau ereill nad ydynt mwyach yn bodoli, i ysgrifenu hanes pob peth yn gywir fel y dygwyddodd; ond nid yw tufewn i'w allu i gario allan ei fwriad. Yn ii. 1—4, a'r iii. 1, 2, mae'n gwneyd rhai gosodiadau pennodol, ag y gallem ni farnu am danynt ar bwys awdurdodau ereill, ac felly ffurfio syniad am ei gywirdeb mewn manau ereill; ac yma mae wedi gwneyd camgymmeriadau difrifol (er esiampl, ni ddarfu i'r fath drethiad o'r holl fyd Rhufeinig ag a grybwyllir yma erioed gymmeryd lle; cafodd yn debygol ei gamarwain trwy glywed am gyfrifiad o boblogaeth Judea a gymmerodd le ddeng mlynedd ar ol marwolaeth Herod). Yn mhellach, mae'n dangos trwy yr holl Efengyl ogwyddiad cryf iawn; mae'n credu, ac yn bwriadu profi fod yr Iesu oddiar ei ymddangosiad cyntaf wedi ei dderbyn yn anffafriol gan ei gydwladwyr Iuddewig, yn neillduol y galluog a'r cyfoethog, ac na chyfarfyddodd ag unrhyw lwyddiant nes iddo ddyfod i gyssylltiad â'r Samaritaniaid a'r Cenedloedd, y tlawd, a'r gwrthodedig. Yr oedd hyn yn wir i raddau pell am Gristionogaeth ar ol marwolaeth Crist, ond er mwyn ei gwneyd i ymddangos, fod hyny yn gwbl mor wir am ymdrechion personol, mae Luc yn gorfod ymwneyd a'i awdurdodau gyda llawer iawn o ryddid. Mae yn gosod pregethiad Crist yn Nazareth gyda'i aflwyddiant ar ddechreu ei yrfa; camgymmeriad amlwg, oblegyd yn iv. 23, mae cyfeiriad yn cael ei wneyd at weithred-

oedd oeddent wedi eu cyflawnu yn barod yn Capernaum, y rhai a raggysgodant, er hyny, ei wrthodiad cyffredinol gan bobl ei wlad ei hun. Mae holl hanes y weinidogaeth yn Galilea (Luc iii. 23—ix. 50,) yn cymmeryd rhyddid cyffelyb o'r cofnodion boreuach; mae eneiniad traed yr Iesu, ag a ddywed Matthew a gymmerodd le ar ddiwedd ei yrfa, yn cael ei osod gan Luc yn fore, er mwyn dangos yn amlycach y cyferbyniad rhwng y Phariseaid hunan-gyfiawn a'r pechadur edifeiriol (vii. 36—50). Mae yr hanes hwn hefyd wedi cael ei dalfyru yn fawr, gan nad yw Luc yn teimlo mewn cymhariaeth ond ychydig ddyddordeb yn yr hyn nad oedd yn dal perthynas â'i syniad arweiniol, ac yn awyddus i fyned yn mlaen i'w ail ddosran (ix. 51—xviii. 14), pan mae yr Iesu yn pasio trwy Samaria ar ei ffordd i fyny i Jerusalem. Mae deg a thriugain o ddysgyblion (nifer yn cyfateb i'r deg a thriugain o wahanol ddosparthiadau y rhai a dybid eu bod yn bodoli yn mhlith y Cenedloedd) yn cael eu hanfon allan i bregethu, ac mae llawer o'r addysg a roddwyd, yn ol Matthew, gan y deuddeg Apostol (un ar gyfer pob un o'r deuddeg llwyth), yn cael ei gyfranu yma i'r deg a thriugain; ac maent yn dychwelyd mewn llawenydd, ac mae'r Iesu yn llawenhau wrth glywed am newyddion eu llwyddiant. Yn yr un yspryd mae y gorchymyn i siarad allan yn hyf i'r holl fyd (Luc viii. 16—18; xii. 2, 3). Mae'r ail ddosran yma, braidd yn hollol, yn gynnwysedig o fater nad yw yn gynnwysedig yn un Efengyl arall, megys dammegion y Samaritan trugarog (x. 25—27); y Mab Afradlon (xv. 11—32); a'r Pharisead a'r Publican (xviii. 9—14); yn mhob un o'r rhai mae syniad arweiniol Luc yn cael ei osod allan mewn modd tarawiadol. Yn ei drydedd ddosran (xviii. 15—xxiv. 53) gallem sylwi fod gwrthwynebiad yr Iuddewon i'r Iesu yn cael ei osod allan yn y lliwiau duaf, tra mae Pilat, cenedl-ddyn, yn ceisio'n ofer i'w achub (xxiii. 4, 13—23). Mae y rhybudd i beidio dysgwyl dychweliad Crist i'r ddaear yn rhy fuan yn deilwng o sylw (xxi. 11—28; cymh. Matt. xxv. 14—30); mae'n rhaid i amser y Cenedloedd (xxi. 24) i gael ei gyflawnu rhwng dinystr Jerusalem a dyfodiad Crist. Ni chafodd yr Efengyl ei hysgrifenu hyd yn agos i ddiwedd y ganrif gyntaf, fel yr oedd yr amser yma yn barod wedi parhau yn agos i ddeg mlynedd ar hugain.

XV.

Actau yr Apostolion.

Mae'n debyg fod rhai o'n darllenwyr wedi sylwi yn barod fod rhai o'r gosodiadau a wnaed yn y gwersi blaenorol yn cael eu gwrth-ddweyd yn Actau yr Apostolion. Mae hyn yn wir, ac yr ydym yn awr yn myned yn mlaen i ddangos nad yw llyfr yr Actau yn deilwng o ymddiried, a'i fod yn llawn gosodiadau sydd yn camarwain. Mae'n angenrheidiol i siarad yn blaen iawn yn y man hwn, oblegyd mae'r llyfr wedi bod am flynyddau yn llyfr dewisol yn ein Hysgolion Sul; ac fe fydd gan yr athraw a'r ysgolheigion lawer i *ddad-ddysgu*, a bydd yn rhaid iddynt gael gwared o *argraff gyffredinol* gyfeiliornus mewn

perthynas i ddechreuad yr Eglwys Gristionogol, os ydynt am gymmeryd mantais o'r wybodaeth newydd sydd wedi tarddu oddiwrth feirniadaeth ddiweddar y Beibl. Fel o'r blaen, nis gallwn roddi y profion yma, dim ond awgrymu ffrwythau yr ymchwiliad; ond yr ydym yn cynghori yr athrawon hyny ag mae eu haddysg a'u cyfleusderau yn eu cymhwyso at y gorchwyl, i wneyd astudiaeth wirioneddol o lyfr Zeller ar yr Actau, cyhoeddedig yn y "Theological Translation Fund Library."

Yn y pennodau xiii. a xiv, ac yn y dosranau canlynol lle mae yr ysgrifenydd yn siarad yn y *first person*, xvi. 10—17; xx. 5—xxi. 18; xxvii. 6—xxviii. 16, yr ydym yn ymddangos fel yn cael gweddillion o waith boreuach, yr hwn mae'n eithaf possibl a ysgrifenwyd gan Luc, yr hwn oedd un o gymdeithion personol Paul. Ond mae'n rhaid fod rhywun wedi cymmeryd i fyny y gwaith boreuach hwn a'i helaethu yn fawr gyda chynnorthwyon ereill. Ac mae'r awdwr hwn wedi cyflawni ei orchwyl mewn ffordd neillduol. Yr oedd ganddo o'r dechreu i'r diwedd *amcan* mewn golwg ag oedd yn hollol annghysson a'r dymuniad syml o ddweyd y gwir. Yr amcan oedd dileu yr adgof am yr ymryson oedd wedi cymmeryd lle rhwng y Cristionogion Cenedlig ac Iuddewig, ei guddio mewn dystawrwydd, a dweyd yr hanes, fel pe na byddai'r ddadl wedi bod erioed yn agos mor chwerw ag y gwyddom ni ei bod. Yr oedd yr ymgais yma yn cael ei gwneyd oddiar fwriad da; ac nid oes raid i ni feio yr ysgrifenydd am wyrdroi y gwirionedd mor llym ag y byddwn yn beio awdwr yn y dyddiau presenol, oblegyd yn mhlith yr Iuddewon am ganrifoedd, yr oedd hanes wedi ei ysgrifenu bob amser gydag amcan; ac yn mhellach, i ryw raddau, fe ddichon fod awdwr llyfr yr Actau wedi cael ei gamarwain gan draddodiad cyfeiliornus. Mae'n cynnyg dwyn ei amcan i ben trwy wneyd Paul mor debyg i Pedr, a Pedr mor debyg i Paul ag sydd bossibl. Mae'n gwneyd Pedr i siarad fel Paul; a Paul i weithredu fel Petr: hyny yw, mae'n gosod yn ngenau Pedr y syniadau rhyddfrydig a ffurfient sylwedd athrawiaeth Paul; ac mae'n gwneyd Paul yn ofalus iawn i gadw gofynion y gyfraith Iuddewig, nid yn unig yn ei achos ei hun, ond hefyd yn achos ei ddysgybl Timotheus; ac mae'n gwneyd i Paul fyned bob amser gyntaf i'r synagog Iuddewig yn mhob tref yr ymwelai â hi, a throi at y cenedloedd yn unig pan y buasai yn cael ei wrthod yno. Yn mhellach yn y deuddeg pennod gyntaf ydynt yn ymwneyd yn benaf â hanes yr apostolion boreuach, mae yr awdwr yn fwyaf awyddus i wneyd Pedr a'i gymdeithion fel Paul. Phylip a Pedr a rhyw ddysgyblion dienw sydd yn gwneyd y troedigion cyntaf yn mhlith y cenedloedd (viii. 26, &c.; x. 1, &c.; xi. 1—18). Yn ddiamheu, yr oedd Pedr yn fwy tueddol i groesawi y cenhedloedd nâ rhai o'i gymdeithion; gallwn gasglu hyny oddiwrth Gal. ii. 12; ond yr oedd yn mhell oddiwrth gymmeryd y rhan arweiniol yn eu troedigaeth a briodolir iddo yma. Erbyn yr amser yr ysgrifenwyd llyfr yr Actau, yr oedd y mwyafrif mawr yn yr Eglwys yn Gristionogion Iuddewig, ac yr oedd golygiadau Paul, mewn ffurf ychydig yn wahanol, wedi ennill buddugoliaeth gyflawn; y cwestiwn oedd, sut i gyssylltu y Gristionogaeth yma a'i ffyn-

nonell wreiddiol, a sicrhau iddi awdurdod apostolaidd gyflawn. Mae ein hawdwr yn dwyn y cyssylltiad yma i ben, trwy wneyd Pedr, mewn gair a gweithred, yn rhag-redegydd Paul, a thrwy guddio o'r golwg bob peth yn mywyd Paul oedd a thuedd neillduol ynddo i dramgwyddo rhagfarn Iuddewig; a gallwn sylwi ei fod yn y modd hyn, yn gwneyd cam â Paul, addysg ac ymddygiad yr hwn ellir eu dysgu yn unig oddiwrth eu epistolau ei hun. Fel enghraifft o annghywirdeb llyfr yr Actau, gallwn gymharu hanes ymweliadau Paul a Jerusalem yn Actau ix. 26—29, a Gal. i. 18—23, ac yn Actau xv. 1—30, a Gal. ii. 1—10; yn mhellach, yn Actau xi. 30, mae crybwylliad yn cael ei wneyd am ymweliad nà chymmerodd le (cym. Gal. i. ii.) Yn hanes merthyrdod Stephan, sydd yn sicr wedi ei sylfaenu ar wir ffeithiau, sylwer fod a fyno'r erledigaeth yn unig, a'r rhai oeddent, fel Stephan, yn awyddus i weled y gyfraith Iuddewig wedi ei diddymu; darfu i'r deuddeg aros yn Jerusalem heb fod neb yn eu haflonyddu, Actau viii. 1. Stephan ar bob cyfrif oedd rhagredegydd yr apostol Paul. Mae llawer iawn o'r hyn a ddywedir wrthym am Paul yn eithaf tebyg o fod yn deilwng o ymddiried, yn neillduol braslun cyffredinol ei waith cenadol. Os bydd y dosparth am bennod i ddarllen, cymmerer hanes ei longddryllliad, Actau xxvii.

I'W BARHAU. W. J.

"Y PRIF RWYSTRAU AR FFORDD UNDODIAETH, A'R MODD I'W SYMMUD YMAITH."

(Parhad o tudalen 123.*)*

II. Ond wedi, yn fyr, draethu ar rwystrau yn tarddu o'r tu allan i Undodiaeth, oddiwrth y sawl a edrychant arni yn isel a dirmygus, fel *system*, ac nad ydyw yn dyfod fyny i'r nôd dyogel er iachawdwriaeth dyn, yn eu golwg, mewn cymhariaeth i'r athrawiaethau poblogaidd a ddaliant hwy, y mae yn briodol i ni feddwl ac ystyried, a gofyn, ai nid oes rhwystrau yn tarddu oddiwrth ein trefniadau mewnol ein hunain? Meddyliwn fod.

Y mae dau ddosparth o ddynion â llaw yn y gwaith, sef, y rhai ydynt yn traethu gair y gwirionedd; a'r rhai ydynt yn ei wrandaw. Nid ydym yn myned i feio y naill ddosparth na'r llall, yn llym, oblegyd fod yma delerau *(conditions)*, y rhai a orfodant y gweinidogion i ryw fesur i gadw'r llwybr a wnant, yn neillduol yn Nghymru. Mewn perthynas i'n pregethwyr, y mae ganddynt gyfleusderau addysgiadol da, mae'n wir, lle gallant gael y *training* angenrheidiol heb lawer iawn o gost arianol. Ond pan yr ymgymmerant â gwaith y weinidogaeth, y mae yn rhaid iddynt, gan mwyaf, gymmeryd yn eu llaw ryw orchwyl neu gilydd fel y gallant enill eu bywiolaeth, a chadw enaid a chorff wrth eu gilydd. Cadw ysgol ddyddiol, ffermwriaeth, a chadw *shop* ydyw'r prif bethau a gymmer y frawdoliaeth

i'w dilyn. Mae llawer o'r weinidogaeth yn Neheudir Cymru wedi enwogi eu hunain mewn cadw ysgolion da. Y maent wedi bod yn ddefnyddiol yn eu hoes a'u cenedlaeth yn ddiamheu. Mae coffadwriaeth llawer o honynt yn y gwahanol ardaloedd y preswylient yn beraroglus hyd y dydd heddyw. Pan y mae gorchwylion fel hyn yn tynu sylw dyn, ac yn cymmeryd i fyny y rhan fwyaf o'i amser, nis gall gael chwareu teg i goethi ei feddwl ei hun—dyfod yn mlaen yn dduwinydd, nac i dalu y sylw digonol hyny, at ei waith fel pregethwr, na chyflawnu y swydd weinidogaethol yn briodol: megys ymweled â'r claf a'r cystuddiol, a gwahanol ofynion ereill perthynol i'r swydd o weinidog. Os dygwydd fod gwaith mawr gan weinidog yn ei ysgol ddyddiol (canys cadw ysgol yw prif ffon bara y rhan luosocaf o'n gweinidogion yn Nghymru), y mae yn hollol flinedig ar ol llafur y dydd; teimla eisieu gorphwys arno. Pa fodd y gall hwn ymgymmeryd â'r gwaith o ddarllen a myfyrio yn awr heb beryglu gwneuthur llongddrylliad o'i gyfansoddiad, a dwyn ei hun i'r beddrod yn anamserol. Yr ydym wedi gweled enghreifftiau o hyn; a hwyrach y cawn weled hyn etto. Mae ein gweinidogion wedi bod erioed, ydym yn meddwl, yn cael eu gorfodi i fyw dan y telerau hyn, canys nid ydyw tâl arianol y weinidogaeth ond rhyw beth eisioes gyda llaw, ys dywedir. Y gwir yw, pe buasai ein hen weinidogion wedi edrych allan am dâl, am fywiolaeth yn eu hamser, oddiwrth y weinidogaeth, nid ydym yn meddwl y buasai genym Eglwys Undodaidd o gwbl yn y wlad. Maent wedi bod yn llafurus a hunanymwadol iawn yn eu hamser. Yr ydym yn meddwl, ynte, fod yr orfodaeth ar weinidogion i edrych am gynnaliaeth iddynt hwy a'u teuluoedd, heb oddiwrth yr Efengyl yn rhwystr i'w mynediad cyflymach yn mlaen. Gallwn feddwl fod y rhwystr o'r cyfeiriad hwn yn dyfod yn fwy yn awr nag ydyw wedi bod, yn enwedig yn y wlad; oblegyd fod Deddf Addysg wedi *passio;* Byrddau Ysgolion wedi eu sefydlu; ysgoldai hardd wedi eu hadeiladu yn y gwahanol blwyfau, ar hyd a lled y wlad, y rhai a ragorant, fel *buildings* cyfleus, o lawer ar hen ysgoldai Llanwnen, Cwrtnewydd, a Phontshân, ac ereill; a'r trethdalwyr yn cael yr anrhydedd o gyflawnu eu dyledswydd i gymdeithas mewn rhoddi addysg i'r dô icuainc sydd yn codi drwy offerynoliaeth y gyfraith wladol. Nid ydym yn beio sefydliad y Ddeddf grybwylledig fel moddion i geisio addysgu'r werin; ond hyn ydym yn weled, ni fydd y bobl yn barod i dalu am yr un *article* ddwywaith, os gallant; felly rhaid i'r gweinidog Undodaidd yn y man i edrych am ei fara a chaws heblaw drwy gadw ysgol ddyddiol, yn neillduol yn y wlad. Felly, yr ydym yn gweled rhwystr i gadw'r weinidogaeth Undodaidd yn mlaen yn y cyfeiriad hwn; ac yr ydym yn ei weled yn fwy bygythiol fyth yn y dyfodol, os ydyw'r drefn bresenol at gynnaliaeth y weinidogaeth i barhau. Cymmaint a hyn yn fyr am y weinidogaeth.

III. Ond am ddosparth y gwrandawyr. Nid ydym yn myned i feio y rhai hyn, fel yr ydym wedi dywedyd yn barod; ond yn wir y maent i'w canmol, lawer o honynt, am sefyll i fyny o blaid y ffydd Undodaidd pan y mae Undodiaeth yn annghymmeradwy gan y lluaws. Etto, ar

yr un pryd, mae llawer gormod o ddifaterwch mewn perthynas i grefydd yn cael ei ddangos gan lawer o broffeswyr y ffydd hon. Yn cydnabod rhesymoldeb y syniadau, a'u tuedd dda i ddwyn oddiamgylch heddwch a dymunoldeb i'r fynwes ddynol, etto y mae yn anmhossibl gan lawer o honynt i ddihuno o'u cysgadrwydd, ac i wneuthur yr hyn a allant o'i phlaid. Mae ereill yn eu sêl ormodol yn myned yn mlaen yn rhy *rash* mewn rhyw symmudiadau perthynol i'w sect neu eu plaid; a mynant mai hwy sydd iawn; ni fynant ymresymu ar y cwestiwn—eisieu ar y cyfryw gael eu ffordd eu hunain, dyma beth yw rhyw *dyrants* ar *small scale;* ac y mae ymddygiadau o'r fath hyn, a welir mewn gwahanol fanau, yn rhwystr i'r achos da fyned yn mlaen. Nid ydym heb feddwl fod arferion llygredig yr oes —megys rhyw ymlyniad gormodol wrth y byd hwn, annghymmedroldeb, a'r cyffelyb, yn foddion dylanwadol iawn i rwystro achos y gwirionedd—ïe, ac achos crefydd yn gyffredinol i fyned rhag ei blaen yn llwyddiannus, ac i ddwyn yr amcan gogoneddus ag sydd gyda hi mewn golwg i ben.

IV. Y moddion goreu i symmud ymaith y rhwystrau crybwylledig.

(1.) I fod yn llwyddiannus yn y gwaith hwn, meddyliwn mai y *step* gyntaf sydd gan ddyn ydyw ceisio adnabod athrawiaethau'r ffydd Gristionogol, dysgu ei hun ynddi, fel y gall ef roddi ateb am y gobaith sydd ynddo, fel y byddo yn alluog i sefyll dadl, pe byddai achos yn gofyn, ac ymresymu â'i wrthwynebwr mewn yspryd mwyn a gostyngedig.

(2.) Meithrin yspryd crefyddol. Meddyliwn fod yr Undodiaid yn gwneuthur rhy fach, ar y cyfan, yn y cyfeiriad hwn mewn modd allanol; megys addoliad teuluaidd, yr hyn beth yr ydym yn cael ein dysgu fod yr hen deidiau yn arferol o ymwneyd ag e', yn ofalus; ac fod hyn wedi cael argraff dda ar lawer meddwl ieuanc, megys y canodd yr hen Ddafis, o Gastellhywel, am dano ei hun:—

> "Gwel'd fy nhad yn plygu 'i liniau,
> Mewn defosiwn, hwyr a borau,
> Barodd imi'n blentyn gyntaf
> Feddwl am y Duw Goruchaf."

(3.) Mae bod yn ofalus am ein cydgynnulliad yn yr addoliad ar y Sul, yn foddion dymunol a da i orfod a gosod i lawr y rhwystrau ar ffordd Undodiaeth. Dylai'r plant ac ereill o'r teulu gael mynychu'r addoliad yn rheolaidd, ac nid gadael iddynt i grwydro yma a thraw ar hyd y banciau a'r twynydd. "Cofia gadw yn santaidd y dydd Sabbath."

(4.) Dylai'r Ysgol Sabbothol gael ei lle priodol fel moddion defnyddiol i symmud ymaith y rhwystrau ar ffordd ein ffydd i fyned rhag ei blaen yn llwyddiannus.

Mae rhyw duedd mewn llawer i osod y baich hwn ar gyfer y gweinidog—fod yn rhaid iddo ef, er ei fod yn cael ei orfodi i fyw dan y telerau (*conditions*) cul crybwylledig, i ymgymmeryd a hyn hefyd. Nid ydym am esgusodi'r gweinidog yn gyfangwbl. Gall roddi cyfarwydd-

iad yn y peth hyn a'r peth arall, 'nawr ac yn y man, ond, prif waith y bobl—aelodau y gymdeithas ydyw; a dylasent dalu sylw manwl i'r cwestiwn, megys am drefn, a gofal am amser, bod yn brydlon i ddechreu a diweddu'r ysgol, &c., fel pethau hanfodol i'r ysgol fod yn llwyddiannus er dwyn amcan yr eglwys i ben yn effeithiol. Yr ydym wedi adnabod rhai ysgolion Sabbothol perthynol i'r enwad yn y sir hon (Aberteifi) a manau ereill yn bur ddiffygiol yn y pethau hyn, yn nghyd a sêl ac ymdrech o'i phlaid. Yr ydym yn dywedyd etto, mai gwaith a dyledswydd y gynnulleidfa ydyw hyn yn benaf.

(5.) Dylai'r weinidogaeth gael gwell sylw. Nis gall y dosparth gweinidogaethol fyw ar y gwynt. Pe gosodasid gerbron daflen o gyflogau gwahanol weinidogion ein henwad, nid wyf yn meddwl na fuasai rhyw ychydig o gywilydd ar y frawdoliaeth i'w gweled. Nid ydym yn amheu na fydd y rhan fwyaf o honoch yn barod i'n beio am y sylw hwn; a'i fod yn arddangos cryn hunanoldeb o'n tu. Ond dywedwn yn ddibetrusder i'r eithaf, fod y corff gweinidogaethol yn mhlith yr Undodiaid hyd yma, wedi bod yn bur hunanymwadol, mewn cymhariaeth i unrhyw gorff gweinidogaethol arall yn y deyrnas, ac i'r byd masnachol yn ei wahanol gangenau.

Meddyliwn, pe buasai pethau yn gwellhau yn nghyfeiriad y diffygion a nodwyd, yr aethai yr achos Undodaidd yn mlaen yn fwy llewyrchus a chyflym. Mae yn rhaid i weinidogion ac eglwysi fod yn ddyfal mewn amser ac allan o amser, i wneuthur eu rhan o blaid y gwirionedd megys, ag yr ydym yn ei ddeall cyn y byddo'r benditbion cyssylltiedig a'r efengyl gael eu cyrhaedd a'u mwynhau genym yn eu cyflawnder.

CYSSURON YR EFENGYL.

Yn mhob oes a gwlad oddiar pan gyhoeddwyd yr Efengyl, y mae wedi gweini cyssur a gorfoledd i'w noddwyr a'i phleidwyr, a gwell fuasai ganddynt gael eu hamddifadu o bob peth daearol, a'r hyn sydd yn cael ei alw yn fawr gan y mwyafrif o ddynion er gwaethaf y modd, nag o'r gobeithion goruchel a bendigedig mae yn ddal allan i'r sawl sydd yn ei chredu ac yn byw yn ol ei chyfarwyddiadau. Bu Saul o Tarsus unwaith ar waith yn ac allan o amser yn ei hamheu a'i gwadu, ac yn gosod allan eu hamddiffynwyr fel ynfydion; ond mewn modd annysgwyliadwy iddo ef ei hunan, y mae goleuni newydd a gwell o'r nefoedd yn tywynu ar ei feddwl, ac yna y mae yn ymddwyn yn wahanol iawn at weision y Goruchaf, ac at yr Efengyl. Ei iaith bellach yw, "Nid oes arnaf gywilydd o Efengyl Crist; oblegyd gallu Duw yw hi, i bob un a'r sydd yn credu; i'r Iuddew yn gyntaf, a hefyd i'r Groegwr." Y mae yn gofidio yn ddwys pan yn meddwl am ac yn myfyrio ar ei ymddygiad creulawn blaenorol at y Cristionogion, ac yn gwneyd pob ymdrech i wneyd iawn am hyny, a chyda'r fath egni y darfu iddo lafurio i daenu y gwirionedd fel y mae yn Iesu Grist, ïe,

gyda'r fath onestrwydd a chydwybolrwydd y mae yn llafurio o blaid y ffydd a roddwyd unwaith i'r saint, a'r fath y cafodd oedd y cyssur a'r gorfoledd a'r dedwyddwch annysgwyliadwy oedd yn nglŷn â hyny, fel y mae yn cael ei orfodi yn y pen draw—pan feddylia fod dydd ei ymddatodiad wrth y drws—"Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd. O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn i mi yn y dydd hwnw; ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad Ef." Gwir yw fod llawer iawn o ddynion goleuedig wedi troi y clust byddar, ac wedi siarad gyda diystyrwch a gwawd am gyssuron yr Efengyl; ond y mae genym hanes am rai o'r cyfryw wedi cael eu dwyn, trwy drugaredd, i well cyflwr, ac yn mawr lawenhau dan yr ystyriaeth eu bod wedi cael eu dwyn oddiar dir anffyddiaeth i lawenhau yn y goleuni moesol ac ysprydol hwnw sydd wedi cael ei ddwyn i'r amlwg gan yr hwn a ddywedodd mai Efe "yw goleuni y byd."

Cawn ddyfynu geiriau neu syniadau un gwr boneddig yn y wlad hon, yr hwn fu byw yn y ganrif ddiweddaf, yr hwn oedd yn fwy enwog ar gyfrif ei rinweddau goruchel nag am ei gyrhaeddiadau a'i sefyllfa uchel mewn cymdeithas; yr hwn wedi iddo roddi i fyny ei egwyddorion inffidelaidd, y rhai a fabwysiadodd yn moreu ei oes, a ddaeth wedi hyny yn selog, ac yn amddiffynydd galluog o'r achos Cristionogol. Dywedir am dano ef, pan yn dynesu at ddydd ei ymddatodiad, ar ddiwedd oes faith, iddo osod allan ei syniadau presenol wrth gyfaill yn y geiriau canlynol:—"Pan aethum allan gyntaf i'r byd, yr oedd genyf gyfeillion a ymdrechasant siglo fy ffydd yn y grefydd Gristionogol. Gwelais anhawsderau y rhai a barodd i mi betruso; ond cedwais fy meddwl yn agored i argyhoeddiad. Yn y diwedd darfu i brofion ac athrawiaethau Cristionogaeth, wedi eu hastudio gyda gofal, beri i mi fod yn gadarn ac yn grediniwr argyhoeddedig o'r grefydd Gristionogol; yr ydwyf wedi ei gwneyd yn rheol fy mywyd, a hi ydyw sylfaen fy ngobeithion dyfodol. Yr wyf wedi cyfeiliorni a phechu, ond yr wyf hefyd wedi edifarhau, ac nid wyf erioed wedi llochi mewn arferiadau drygionus. Ni roddais gynghorion na feddyliwn ar y pryd eu bod y goreu. Yr wyf wedi gweled fy mod ar rai prydiau yn gamsyniol; ond ni chyfeiliornais yn fwriadol. Yr wyf wedi ymdrechu yn fy mywyd dirgel i wneyd yr holl ddaioni yn fy ngallu, ac ni wnaethum erioed am gymmaint a moment lochi mewn amcanion annghyfiawn a drygionus at neb pwy bynag."*

Pwy na ddymunai feddiannu teimlad y dyn yma, yr hwn, ar fin angeu, ac megys yn rhagweled ei gyfrif olaf, a allasai wneyd yr haeriad gododog a chynhyrfiol yma! Pwy all ddesgrifio y llawenydd oedd yn daenedig trwy y galon ddynol, trwy ddarganfyddiadau Efengyl Crist? Y dyn yr hwn, o gyflwr tywyll a dall ag y mae ei olwg, efe, yr hwn o'i gell dywyll gaddugawl, sydd yn cael caniatad i weled pelydrau siriol yr haul—y mae hwn yn teimlo graddau o fodd-

* Gwel hanesyn George, Arglwydd Lyttleton, yn hanes Bowyer gan Nicholls.

had, o gyssur a pherlewygedd, na all neb arall wybod dim am danynt ond yn unig ef ei hunan. Y mae llawenydd yn eiddo iddo ef, yr hwn sydd yn gweled, allan o drysorfa dywyll amheuaeth a phetrusdod, oleuni gogoneddus yn llewyrchu ar ei feddwl, ac y mae y goleuni yma yn sirioli ei ragolygon parth y byd anweledig. Y mae haul mawr y cyfiawnder yn tywynu ar ei feddwl, ac wele gysgodau tywyllwch moesol yn diflanu o'i olwg fel niwl y boreu wedi i'r haul ymddangos yn ei ogoniant, yr hwn sydd yn goleuo ac yn datguddio harddwch ysplenydd y greadigaeth. Y mae goleuni yn tywynu ar diriogaeth tywyllwch, ac y mae cysgod angeu yn cael ei droi yn foreu dydd; y mae amheuaeth yn cael ei wasgaru, y mae pob ofn yn cael ei alltudio o'r galon ddynol, ac y mae yn cael ei lloni a'i sirioli yn awr gan y gobaith o fodolaeth ddiderfyn. Z.

YMDDYGIAD GWARTHUS OFFEIRIAD.

Rheswm etto dros basio Mesur Claddu Osborne Morgan.

(Allan o'r *East Anglian Daily Times*, Ipswich.)

Ychydig ddyddiau yn ol, collodd gweithiwr yn ngwasanaeth Mr. Gooding, o Akenham Hall, faban, dwy flwydd oed. Gan mai Bedyddwyr oedd y rhieni, yr oedd y plentyn heb ei fedyddio. Y mae Ipswich tua phedair milldir o Akenham, a chan nad oes yr un gladdfa yn nes, gwnaethpwyd cais am gael claddu yn mynwent eglwys y plwyf. Darfu i'r Parch. George Drury, rector plwyf cydffiniol Claydon, pan glywodd fod y plentyn heb ei fedyddio, wrthod yn bendant roddi caniatad i gladdu yn y tir cyssegredig, ond yr oedd yn foddlon i gladdu tu cefn i'r eglwys yn y tir heb ei gyssegru, oedd wedi ei fwriadu i fabanod marw-geni, ar y telerau nad oedd un gwasanaeth i gael ei gynnal o fewn y fynwent. Gwrthododd yn sarug iawn i gladdu ei hunan, a gwrthododd i neb gael gwasanaethu yn yr Eglwys yn ei le. Yn naturiol iawn nid oedd y rhieni yn dymuno i'w plentyn anwyl gael ei gladdu fel ci, ac ymgymmerodd Mr. Gooding a threfnu i gael gwasanaeth hyr gogyfer a chlwyd y fynwent. Dydd Iau, ymwelodd Mr. Gooding â'r Parch. Wickham Tozer o Ipswich, yr hwn a gydsyniodd gyda phob parodrwydd i gladdu y plentyn am 5.30, prydnawn dydd Gwener. Rhyw ddeg neu 15eg munyd cyn yr amser, daeth Mr. Tozer, yn nghyd â Mr. Gooding a Mr. Smith, yr hwn sydd *churchwarden*. Yr oedd yr offeiriad yn rhodio yn ol ac yn mlaen yn y fynwent, wedi ei wisgo mewn dull tra annesgrifiadwy. O'r diwedd daeth yr angladd—feallai 30 o bersonau i gyd. Y pwnc pwysig mewn cyssylltiad a'r plentyn yma mae yn debyg oedd, nad oedd wedi ei fedyddio, yr oedd yn bechod i roddi claddedigaeth Cristionogol iddo, ac felly mor bell ag oedd yn ngallu y gweinidog hwn i'w rwystro, ni chawsai un gwasanaeth crefyddol ei gyflawni—na chanddo ef na chan neb arall. Mewn perthynas i'r hyn ellid ei wneuthur wedi gosod y plentyn yn y bedd, ni wnaethai hyny effeithio un mymryn ar gydwybod yr offeiriad hwn. Methwyd cael elor, a gorfuwyd dodi y coffin bach ar y llawr. Safai y cyfeillion oddiamgylch iddo, a dechreuodd Mr. Tozer ddarllen darnau cymhwys o'r Ysgrythyr. Darfu i'r offeiriad, yn ei wisg santaidd, (o'r braidd yr oedd y wyneb yn cydweddu â'r wisg,) adael drws yr eglwys, a hwylio yn anrhydeddus iawn i fyny i'r llwybr, a dyfod allan trwy'r *gate*, a sefyll tua hyd braich i'r aswy i Mr. Tozer, ac yn gwynebu y galarwyr.

Offeiriad: "Pump o'r gloch oedd amser yr angladd yma, y mae yn awr heibio hanner awr wedi pump, ac yr wyf yn gorchymyn i chwi fyned â'r corff at y bedd yn union."

Aeth y gweinidog yn y blaen, ac ni thalodd neb un sylw i orchymyn Mr. Drury. Gyda gwyneb mor galed a'r dur, a'i wefusau wedi eu sefydlu yn ffyrm ar un ochr i'w enau, ac wedi eu troi i fyny ychydig ar yr ochr arall yn arddangosiad o anfoddlon-

rwydd mawr, dywedodd yr offeiriad :—" Yr ydwyf wedi bod yn aros dros hanner awr, ac nid yw yn rhesymol i chwi fy nghadw i yma hyd nes y gweloch yn dda i derfynu y peth yma." Gan na cheisiodd neb ei ateb, aeth yn y blaen—" Pam na ellwch gymmeryd y coffin at y bedd, ac yna dyfod yn ol a chynnal pa wasanaeth a fynoch ?" Gall ein darllenwyr yn rhwydd ddeall ystyr yr ymddygiad hwn. Nid yn gymmaint brys Mr. Drury oedd, a'i wrthwynebiad i wasanaeth crefyddol o unrhyw fath i gael ei gynnal uwchben plentyn heb ei fedyddio ; etto, ni chymmerodd Mr. Tozer an sylw o'r rhwystr, ond aeth yn mlaen yn dawel yn darllen rhanau o'r Ysgrythyr.

Offeiriad :—" Mae yn rhaid i mi etto orchymyn i chwi oedi y gwasanaeth hwn nes byddo y corff wedi ei gladdu."

Mr. Gooding :—" Da chwi, syr, byddwch yn llonydd. Ni phery y gwasanaeth lawer o funydau."

Offeiriad :—" Peidiwch dywedyd wrthyf fi am fod yn llonydd. Mae genyf ddyledswydd i'w chyflawni a chyflawnaf hi. Rhaid i mi ddysgu'm plwyfolion fod hyn oll yn *wrong*." Nesaodd Mr. Tozer ychydig at Mr. Drury a dywedodd, " Yr wyf yn eich parchu fel gweinidog, ni wnawn i ddim yn erbyn eich argyhoeddiadau crefyddol neu eich teimladau cydwybodol yn wirfoddol ; ond yr wyf yn deisyf arnoch fod yn llonydd am ychydig funydau, ni fyddwn yn hir."

Offeiriad :—" Beth sydd a fyno hyny â'r mater ?"

Mr. Tozer :—" O, meddwl own mae boneddwr oeddych, Cristion, gweinidog i Grist !"

Offeiriad :—" Nid wyf yn gweled beth sydd a fyno argyhoeddiadau neu deimladau â'r mater."

Mr Tozer :—" Wel, nid wyf am ddadleu â chwi, ond yr wyf yn appelio at eich dynoliaeth, ac yn deisyf arnoch i beidio poeni teimladau y bobl yma druain ar amser fel hwn."

Offeiriad :—" Nid yw hyna ond *nonsense* i gyd : nid oes a fyno dynoliaeth a theimladau â'r mater o gwbl. Mae eich gwaith yma (*your proceedings*) yn *wrong* hollol, a rhaid i mi ddysgu'm plwyfolion nas gallaf ei ganiatau."

Mr. Tozer :—" Wel syr, yr oeddwn yn meddwl os nad oeddych yn foneddwr nac yn Cristion, y gallech o bossibl fod yn ddyn. Drwg genyf fy mod wedi camsynied."

Offeiriad:—" Yr ydych yn galw hynyna yn Gristionogol feallai."

Mr. Tozer :—" Yn hynod felly ; ac am y rheswm hyny yr wyf yn ofni eich bod yn analluog i'w werthfawrogi. Mae genych wisg offeiriadol, ac yr wyf yn tybied eich bod yn cymmeryd yn ganiataol fod hyny yn gyfystyr â bod yn offeiriad ; ond yr ydych yn amddifad o yspryd eich Meistr, ac nid oes genych fymryn o ddynoliaeth ynoch, neu ni fuasech yn alluog o ymddygiad o'r fath yma."

Offeiriad :—" Nid wyf yn gweled beth sydd a fyno dynoliaeth â'r mater. Nid yw y plentyn yna (gan bwyntio at y coffin â'i umbrella) wedi ei fedyddio, ac felly nid yw yn Gristion, ac yr wyf yn gwrthwynebu iddo gael ei gladdu fel y cyfryw." Yr oedd dirgelwch gwrthwynebiad Mr. Drury yn awr wedi ei amlygu, a chynnyrchodd effaith uniongyrchol ar Mr. Tozer. Mor gyflym â meddwl, cododd ei hunan i fyny i'w lawn uwchder (yn agos i chwech troedfedd), a dygodd ei fraich ddeheu yn beryglus o agos at ben Mr. Drury, ac â'i lygaid yn fflachio fel tân, a'i lais yn crynu gan deimlad, dywedodd—" Oni bai clwyfo teimladau y bobl yma druain mi wnaethwn i'n fuan iawn ddystewi eich ymadrodd creulawn. Er wedi eich trwsio mewn gwisg offeiriadol, ac yn dal swydd gweinidog, yr ydych yn *ddisgrace* i ddynoliaeth."

Offeiriad :—" Peidiwch ysgwyd eich dwrn yn fy ngwyneb i."

Mr. Tozer :—" Nid oeddwn yn ysgwyd fy nwrn yn eich gwyneb, ond yr ydych yn gyfiawn haeddu cael eich gwneuthur i'w deimlo."

Offeiriad :—" A galwch hyna yn Gristionogol ?"

Mr. Tozer :—" Yn hollol felly."

Offeiriad :—" Yr ydych yn Fedyddiwr, ac etto gallwch ddyfod yma a chyflawni gwasanaeth uwch plentyn nad yw wedi ei fedyddio, a'r hwn nid yw gan hyny yn Gristion."

Mr. Tozer :—" Nid oes genyf un dymuniad i ddadleu â dyn sydd mor amddifad o deimladau mwyaf cyffredin dynoliaeth ag ydych chwi, ac oni bai mai angladd ydyw hwn, mi wnawn yn fuan eich bwndlo oddiyma."

Offeiriad :—" Llwybr cyhoeddus ydyw hwn, ac y mae genyf gymmaint o hawl i fod yma ag sydd genych chwi."

Mr. Tozer :—"Yr un cymmaint a dim yn rhagor. Yr ydym wedi bod yn ofalus i ochelyd gwneuthur dim a allai yn rhesymol glwyfo eich teimladau, ac yr ydym wedi dyfod yma am mai llwybr cyhoeddus yw; ac nid oes genych un hawl i ymyru â ni."

Offeiriad :—"Y mae genyf yr hawl i ddysgu fy mhlwyfolion ei fod yn *wrong* i gyflawni defodau angladdol ffurf Gristionogol uwchben plentyn heb ei fedyddio."

Tad y plentyn :—"Dewch, Mr. Drury, bydd genyf rywbeth i'w ddweyd os na chaniatewch i'r boneddwr i fyned yn mlaen â'r gwasanaeth."

Y fam, yn gweled ei gwr wedi cynhyrfu, ac yn ofni'r canlyniadau a ddywedodd, "Na feindiwch y person, Mr. Tozer, ewch yn mlaen â'r gwasanaeth."

Offeiriad :—"Yr wyf wedi bod yn aros yma dros hanner awr, ac y mae yn afresymol i chwi ddysgwyl i mi aros, tra yr ydych yn cario yn y blaen y seremoni anwarantadwy hon."

Mr. Gooding :—"Gadewch i mi adgofio i chwi, syr, i chwi wrthod cyflawni un gwasanaeth eich hunan; wedi hyny, ni cheisiodd neb genych i fod yn bresenol, ac nid oes neb yn dymuno i chwi aros."

Offeiriad :—"Sut y gallaswn fyned trwy wasanaeth uwch plentyn nad oedd yn Gristion? Os na wnewch yn union gymmeryd y corff at y bedd, mi wnaf gloi y glwyd a myned i ffwrdd."

Mr. Tozer :—"Nid oes neb wedi ceisio genych ddyfod, ac nid oes neb yn dymuno i chwi aros."

Offeiriad :—"Mi wnaf yn sicr gloi y glwyd ac ymadael."

Mr. Tozer :—"Ffwrdd a chwi i'r nefoedd os y mynwch; byddai yn waredigaeth hapus i'r byd pe byddech chwi a'ch holl lwyth offeiriadol yno yn barod, er fy mod yn ofni mai siawns ganolig sydd genych i fyned yno. Cerddwch i ffwrdd oddiwrthym ni, ac nid yw waeth genyf i ba le yr eloch."

Ar hyn clôdd yr offeiriad y glwyd ac aeth—nid i'r nefoedd ond i Claydon, yr hwn mor bell ag mae a fyno â'r persondŷ a'r lleiandŷ (*nunnery*), sydd le gwahanol iawn. Ar ol yr arddangosiad trist yma o ddiffyg cydymdeimlad Cristionogol, gorphenodd Mr. Tozer y gwasanaeth mewn heddwch. Yr oedd Mr. Gooding a Mr. Smith yn gyfartal i'r achlysur, ac yn fuan iawn gwnaethant eu ffordd at y bedd. Yno mewn dystawrwydd dwys gosodwyd gweddillion y truan diniwed, uwchben yr hwn yr ymladdwyd y frwydr geiriau galed ac anweddaidd yma, i orwedd. Yna dychwelodd y parti at y glwyd, a darllenwyd y gwasanaeth claddu arferol a therfynwyd.

TANCHWA ABERCARN,

Medi 12fed, 1878.

Doed haf, doed gauaf, doed tes, doed gwlaw,
'Does yr un o honynt yn ol a ddaw.
Yn foreu yr aethant o'u cartref cu,
Pan dorodd y dydd dros y ddaear ddu,
Ond hwy ni ddychwelant byth atom ni.

Yn ddiwyd yr oeddym ni oll yn gweithio—
  Rhai yn gwneyd bara, a rhai yn crynhoi,
  A rhai yn llawn ffrwst yn parotoi
  I gael ciniaw; 'r babanod yr oeddynt yn huno
'N eu cewyll clydion, a'r plant
      Yn chwareu, yn chwareu,
A'u si a'u dwndwr fel dwndwr cant
Yn yr heol, gan faint eu twrw;
Tra'r oll yn y tŷ yn dawel iawn,
Nes myned o rai i'r drws i'w galw
Gan dd'wedyd, mae bellach dybygwn yn llawn
Bryd i chwi blant i roi heibio y chwareu,
      Y chwareu.

Ond ni wnaethai'r plant un sylw o'r geiriau,
Teimlent mor llawen yn nghanol eu chwareu,
Pan oll ar unwaith, fel ergyd fe ddaeth,
A thori'n calonau mewn munyd a wnaeth!
Mae'r heol yn awr wedi llwyr dawelu,
Nid oes swn yn unman ond swn galaru,—
Swn y fam, y wraig, yn llefain yn irad
Ar ol un a garai fel byw ei llygad,
O, famau a merched, gwragedd, cariadau,
Collasom lawenydd ein holl fywydau,
Collasom, collasom ein pobpeth a mwy,
O, blant nid oes eisieu i chwi chwarau yn hwy,
Neu flino'ch mam am gael eistedd i fyny
Y nos gael sipian o gwpan eich Dady;
Yn gynnar i'r gwely neu'n dd'weddar yr ewch,
Dim mwy o'r danteithion gan Dady a gewch;
'Does genych na Dady na brawd yn awr,
Cydlifo mae'n dagrau yn heilltion i'r llawr;
Ai gwylied y dydd neu y nos a wnawn
Ni chlywn mwy y traed wnai yr oll yn iawn.
Dyma'r cap, a'r siaced! i fyny'r grisiau,
Mae genym yn ddyogel y dillad gorau,—
A'u llyfrau emynau a'u llyfrau tonau,
Maent oll ar y selff yn gyfrolau llydain,
A phob peth oedd eiddynt—*ond hwy eu hunain!*
Edrycha pob peth fel 'n yr amser a fu
Ond hwy ni ddychwelant byth atom ni.

Tywyna'r haul ar eu beddau, a'r gwlaw
A gura, a'r c'nauaf etto a ddaw,
A'r plant a chwareuant o flaen y tŷ,
Aiff pobpeth yn mlaen fel 'n yr amser fu,
Ond hwy ni ddychwelant byth atom ni. D. G.

Adolygiad:

EMYNAU O FAWL A GWEDDI: wedi eu casglu a'u trefnu gan y R. J. Jones. Aberdar: Jenkin Howell, Argraffydd, Commercial place. 1878.

YN ein barn bwyllog ond gostyngedig ni, dyma y llyfr hymnau goreu, a chymmeryd pob peth i ystyriaeth, yn yr iaith Gymraeg. Nid yw yntau yn berffaith, ond y goreu sy genym. Tebyg y gwahaniaetha mwyafrif crefyddwyr ein gwlad oddiwrthym yn hyn o farn, a llawer hefyd yn mhlith yr Undodiaid, ond nid oes mo'r help am hyny. Daw y rhesymau ag sy genym i'r golwg fel yr elom yn mlaen.

Yr oedd mawr angen am gasgliad newydd o hymnau yn ein cynnulleidfaoedd ni. Yr oedd yr argraffiad newydd o Salmau yr Eglwys, a wnawd yn 1857, wedi myned yn hynod o brin, a llawn mor brin a hyny y Casgliad o Salmau, a wnaed yn yr un flwyddyn, gan y diweddar barchedig John Jones, gweinidog Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, a thad casglydd y Llyfr Hymnau newydd. Tyfai ein ieuenctyd i fyny heb lyfr hymnau yn eu dwylaw, a bychan iawn oedd y cyfle ganddynt i

drysori salmau a hymnau yn eu cof. Teimlem yn fynych drostynt, ac ofnem weled tô yn codi yn anwybodus o'r rhan bwysig hon o lenyddiaeth grefyddol. Ond pa fath lyfr hymnau i'w gael? Pwy a ymgymmerai â'r gorchwyl? Fel rheol, nid rhyw lawer o amser hamddenol sy gan weinidogion yr Undodiaid yn Nghymru, gan eu bod y rhan amlaf o honynt wedi arfer cadw ysgol. Ac y mae hymnyddiaeth yn gangen a ofyn am gryn lawer o amser i ddarllen a chwilio, a chyfieithu a dethol a newid, cyn y gellir troi allan gasgliad o nemawr gwerth. Daeth Mr. Jones o Aberdar, i'r adwy, a dygwyddodd i'w afiechyd hir, dichon,fod yn help iddo yn hyn o beth, i roi iddo fwy o hamdden nag a gawsai pe ei iechyd heb roi ffordd flynyddau yn ol.

Pa fath lyfr i'w gael? Nid oedd llwyr gyd-farnu yma. Dewisai rhai gael argraffiad newydd rhad o Salmau Iolo, yn gywyddau ac englynion a chwbl. Ni thybiwn fod y dosparth hwn yn lluosog iawn. Er mai yr hen fardd o Forganwg yw y blaenaf o bellder ffordd—ië, o bellder anfeuradwy—o'n hemynwyr, yn ein golwg ni; mae ynddo ef y fath helaethrwydd o wybodaeth grefyddol, o brofiad duwiol, o ffydd ddiysgog yn nhrefnau'r nefoedd, o chwaeth bur, o awen rywiog glasurol, o iaith nerthol ddetholedig, fel nad oes neb—hyd y nod y peraidd ganiedydd o Bantycelyn ei hun, er godidoced ef,—i ymryson ag ef, yn ein corlan fechan ni o'r eglwys Gristionogol yn Nghymru o leiaf, am yr oruchafiaeth. Etto, er ei fod yn sefyll fel hyn ar ei ben ei hun fel awdwr ein salmau melusaf, teimlid gan lawer y buasai detholiad o'i weithiau yn well nag argraffiad cyflawn, gan fod treiglad amser yn effeithio rhyw gymmaint hyd y nod ar gyfansoddiadau mor ardderchog ag eiddo yr enwog brif fardd. Casgliad o fath yr un cynnygir i'r cyhoedd yn awr, mae yn debyg, oedd dymuniad y mwyafrif: casgliad o Iolo, Thomas Evans, Williams Pantycelyn, ac allan o gynnyrchion pob emynwr o deilyngdod, nid yn unig o'n corff crefyddol ni ein hunain, ond o blith pob enwad a chyfundeb crefyddol yn mhob man; casgliad gwir gatholig, wedi ei dynu allan o awdwyr yn perthyn i Eglwys Rhufain, Eglwys Loegr, neu unrhyw eglwys arall ag sydd wedi cynnyrchu athrylith grefyddol ac awen santaidd.

Yr olwg gatholig hon y darfu i gasglydd y llyfr hymnau newydd fabwysiadu, a cheisiodd, nid heb raddau helaeth o lwyddiant fel y barnwn ni, ei chario allan yn ymarferol. Nad pa fai y dichon i lygad y beirniad chwilgar gael o hyd iddo yn y llyfr newydd, diau mai nid arwyddion o gulni sectol yn y detholiad fydd. Mae pob enwad crefyddol ag sydd wedi cynnyrchu caniadaeth gyssegredig o unrhyw werth a bri yn cael ei gynnrychioli yma. Cyfansoddiadau Iolo, y bardd o Bantycelyn, a Thomas Evans, ydynt yn debyg y lluosocaf yma, fel y gallesid dysgwyl. Yn wir, mae hufen salmau diail y blaenaf oll yma: y cyfryw ag a genir yn fwyaf cyffredin yn ein cynnulleidfaoedd, ac ydynt yn anhebgorol bellach i'n mawl cyhoeddus; y salmau rhyfedd hyny y gwelwn fwy a mwy o ystyr ynddynt pa fwyaf a ganwn arnynt; salmau y rhai nis gallwn ddweyd am danynt, pa un ai dyfnder eu hystyr, neu felusder eu caine, neu nefoldeb eu hyspryd sy fwyaf nodedig. Ond y mae y casglydd wedi dethol llawer o blith hymnau melus Dafydd

Jones o Watts, ac anadliadau cynhes y patriarch o Gelligron, a'r hen fardd o Gastellhywel. Mae bagad o hymnau llithrig Reuben Brydydd y Coed yma, yn gystal a detholion o weithiau Daniel Ddu, Ieuan Glan Geirionydd, a'r "hen Oronwy;" ac nid ydym heb fawr roesawi rhai o emynau llawn defosiwn Jenkin Jones, o Lwynrhydowen, a Dafydd Llwyd, Brynllefrith, yn nghyd a rhai henach etto, archddiacon awengar Meirionydd. Mae hymn odidog y Tad Newman, o Eglwys Rufain, yn un o emau y gyfrol: "Di dyner wawl," yn gystal a "Chynnulliad y cysgodau," awdwr yr hon sydd anadnabyddus. O feirdd yn byw yn bresenol, y mae yma rai o gynnyrchion dewisol Islwyn, Ceiriog Hughes, a Dewi Hefin. Ond nid yw ein lle yn caniatau i ni fanylu. Digon yw dweyd fod y casgliad wedi ei wneyd o weithiau llawer iawn o wahanol awdwyr—dim llai na rhyw ddeugain o emynwyr Cymreig, a thros ugain o rai Seisnig, Americanaidd, neu Germanaidd.

Nid yn unig mae yr awdwyr yn perthyn i braidd pob enwad adnabyddus o grefyddwyr. Mae y llyfr yn wir gatholig yn yr ystyr hyn. Ond y mae etto mewn ystyr arall ac uwch. Mae yr hymnau a gymmerwyd o waith y gwahanol awdwyr yn gyfryw ag y tybiem ni y gellid eu canu yn mhob cynnulleidfa o addolwyr defosiynol a diragfarn. Ni chyhwfanant athrawiaethau neillduol a gwahaniaethol yr enwadau. Mae tir canol mewn crefydd lle y mae pawb yn cydgwrdd. Nis gwyr yr addoliad puraf am enwadaeth a shibboleth sectol: anmhersonol, anenwadol, catholig ydyw. Dichon y bydd yr hymnau yn annghymmeradwy gyda rhai am na feddant nod athrawiaethol neillduol yn fwy amlwg ar eu talcenau, am nad ydynt yn ddigon *dogmatic*. Gobeithio mai ychydig fydd nifer y ceintachwyr hyn, a bod syniad cywirach nag sydd wedi ffynu yn yr amser a aeth heibio am anhebgorion hymnau da yn ennill tir. Nid pregeth, nid llith o athrawiaeth, nid cyffes ffydd, na chredo yw hyn i fod. Nid ymresymiad yw hyn. Anadliad naturiol enaid llawn o deimlad duwiol, boed drist neu lawen, diolchgar neu erfyniadol, ydyw y wir hymn. Barddoniaeth santaidd yn ymdywallt o galon y gwir gredadyn tua mynwes Duw. Nid oes i'r wir hymn ryw fwriad i ddysgu neu argyhoeddi, neu berswadio, neu gyfarwyddo, neu geryddu. Ychydig wedi'r cwbl yw nifer y salmau a'r hymnau mewn unrhyw iaith a atebant yn llwyr i'r desgrifiad hwn. Yn ein iaith ni gwersi moesol neu draethiadau athrawiaethol wedi eu gosod allan ar fesur cerdd yw rhan fawr o'n hymnau. Gellwch yn aml heb lawer o drafferth olrhain bannau ffydd yr eglwys, ond i chwi ddarllen yn ofalus yr hymnau fyddo ar ei phwlpud. Buom ni mewn dygn brofedigaeth rai gweithiau wrth geisio defnyddio yr hymnau *dogmatic* neu athrawiaethol hyn mewn cylchwyl clwb, neu ar ryw achlysur o'r fath lle yr oedd dynion o wahanol enwadau yn nghyd, a minau yn methu yn glir a dod o hyd i emyn nad oedd yn heigio o'r enwadaeth gulaf, danbeidiaf a mwyaf haerllug. Ni honai casglwr y gyfrol newydd hon gymmaint a hyny o glod iddo ei hun a chymmeryd arno i fod pob hymn rydd-ieithol, neu yn cynnwys mwy o addysg neu athrawiaeth nag o ddefosiwn ac addoliad digymmysg, wedi eu chau allan. Yr oedd braidd yn anmhossibl iddo allu llwyddo gyda'r defnyddiau oedd ganddo i fod

yn fanwl yn y peth hwn. Mae Iolo yma fel ar ystyriaethau ereill yn tra rhagori: y bardd o Bantycelyn yn nodedig o hapus yn fynych. Ond nid yw ei chwaeth ef i ymddiried iddo bod amser. Disgyna yn fynych mewn llinell union o'r gwych i'r gwael, o'r nefol i'r cnawdol. Hud-ddenir ef nid yn anfynych i ddesgrifio ei *symptoms* ysprydol hyd at flinder i'r darllenydd. Mae ffurf ei farddoniaeth ef yn fynych yn dra thrwsgl ac isel: yn lle cyffroi a chynnorthwyo defosiwn, weithiau tyn ei linellau rhy sathredig y wên i'r wyneb, ac adeinia angel addoliad ei daith i ffwrdd. Ond y mae ganddo gyffyrddiadau o'r mwyaf tyner, ehediadau o'r mwyaf angylaidd yn rhai o'i geinciau. Yr hwn a bechodd waethaf yn debyg yn y cyfeiriad moeswersol neu bregethwrol oedd y gwr da hwnw, y Parchedig Thomas Evans, o Hen-dy-cwrdd, Aberdar. Cerddi moesol, adnodau wedi eu troi ar gân, ymrwymiadau prydyddol, syn-fyfyrdodau, a hunan-ymddyddanion crefyddol, yw llawer o'i hymnau ef; llawn o synwyr yn wir, ond y mae rhywbeth y tuhwnt i synwyr sych mewn gwir farddoniaeth. Etto, diau fod ei hymnau ef wedi bod yn dderbyniol iawn, hyd y nod yn parhau felly, gyda llawer yn ein cyfundeb crefyddol ni. Mae dosparth o grefyddwyr yn hoffi y naws a'r dôn athrawiaethol, ac yn barod i wenu ar anadliadau cynhes a thoddedig y wir hymn—yr anthem hunanadeiniol a brysura ei thaith yn uniongyrchol o enaid y sant tuag at orsedd Duw, heb oedi gyda na rheswm nac esponiad.

Mae yn gyffredin enwau dwy dôn wedi eu rhoi o flaen pob hymn; gobeithio y profant o fudd a help i'n cantorion. Bu cryn ohebu er ys tro yn ol yn nghylch cael llyfr emynau a thônau wedi eu rhwymo yn nghyd, a'u hargraffu ar yr un tudalenau. Buasai y fath anturiaeth yn golygu cryn gyfrifoldeb o ran traul heb son am ddim arall, a barnodd y casglydd presenol mai gwell oedd dwyn yr hymnau allan ar wahan ac yn gyntaf oll. Tebyg y cydolygir ag ef iddo ymddwyn yn ddoeth yn hyn o beth. Ymgymmered rhywun arall a dwyn llyfr tônau allan os yw yn angenrheidiol. Yn anad dim ni a obeithiwn y caiff y llyfr hymnau hwn y fath dderbyniad fel na bo i'n cyfaill gael ei ddigaloni gydag anturiaeth mor bwysig, na gorfod dyoddef colled arianol ar ol ei holl lafur caled a byd o bryder. Ar ein cynnulleidfaoedd y mae y mater hwn yn gorphwys. Trwy i'r rhieni ei gwneyd hi yn bwnc fod i bob un o'r plant i gael copi o'r llyfr i'w ddefnyddio yn yr addoliad bob Sul, ac nid yw pris y llyfr yn anhawdd, yn y rhan fwyaf o deuluoedd o leiaf, cynnorthwyid gwerthiad y llyfr yn fawr iawn, a pharotoid y ffordd i argraffiad newydd cyn bo hir.

Mae yr emynau yn cael eu dosparthu i bedwar llyfr: I. Duw, a'i neshad at ddyn; II. Dyn, yn ei neshad at Dduw; III. Tymhorau ac Amgylchiadau Neillduol; IV. Ychwanegiad. Mewn argraffiad dyfodol, diau y gwelir ffordd i roi hymnau yr Ychwanegiad o dan un o'r rhaniadau ereill. Anhawdd iawn gwneyd dosparthiad boddhaol o hymnau yn ol eu hystyr a'u rhediad heb lawer cynnyg, ac heb gryn brofiad gyda gwaith o'r natur hyn.

Mae yr argraffwaith yn dlws a deheuig; y llythyren yn glir ac eglur; y papyr yn dda; y rhwymiad yn gryf a defnyddiol, a'r gwaith drwyddo

yn glod mawr nid yn unig i'r detholydd, ond i'r argraffydd hefyd. Ond er pob gofal mae ychydig o wallau wedi dianc, a dichon y gwnawn ryw wasanaeth i'w nodi allan yma, modd y gallo pob un gywiro ei gopi ei hun. Ar yr ail dudalen o'r Rhagymadrodd nid yr ysgrifenydd yw awdwr Hymn 228. Rhif 288 ddylasai fod. Cyfieithad Mr. Watkin Bevan o Matthias Claudius yw Hymn 228. Dr. A. C. Coxe yw awdwr Hymn 242, nid 244. Dylasai enw y bardd ieuanc ond anffodus Thomas Chatterton (1752—1770) fod i lawr am Hymn 122. Byddai "Awdwyr Gwreiddiol" yn fwy cywir nag "Awdwyr Seisnig," gan nad yw rhai o'r awdwyr dyeithr hyn yn Saeson o gwbl. Yn y Mynegai i'r llinellau cyntaf, ar ol "Mae planedau lu," &c., darllener W.J. yn lle G.G. Hymn 135 llinell 3, yn lle "eu" darllener "*ei*;" hymn 315 llinell 4, yn lle "nghrym" darllener "*ngrym*;" Hymn 329 llinell 5 o'r 2il bennil, yn lle "cofio" darllener "*cofia*;" Hymn 330, dylai y mesur fod yn "9. 8." ac nid "8. 9." Yn y "Mynegai i'r Awdwyr," y talfyriad am enw William Williams, Pantycelyn a ddylai fod yn "*W.*" ac nid "W.W." Ond ar y cyfan ychydig iawn yw y gwallau.

Dymunwn rwydd hynt i'r gyfrol dlos. Bydded yn llaw Duw yn foddion i grefyddoli teimlad yr oes sydd yn codi, ac i arwain ei meddwl mewn gwir a gostyngedig ddefosiwn at Dad ein Harglwydd Iesu Grist.

Llandyssul, Medi 18*fed*, 1878. WILLIAM THOMAS.

ABEN HASSAN.—HANESYN PERSIAIDD.

Allan o'r *Drych* Americanaidd.

"'Roedd Aben Hassan, yn ei dyb ei hun,
Yn fwy crefyddol braidd nag unrhyw ddyn;
A thybiai ef na fu un llanc erioed,
Yn nes i'r nefoedd pan yn ugain oed;
Coleddai hefyd ryw syniadau llym,
Yn nghylch duwioldeb yn ei ffurf a'i grym;
Yn fynych yn y nos cyfodai ef,
I ddanfon hir weddiau tua'r nef;
O fewn i'r Coran chwiliai am y gwir,
A dwys fyfyriai ynddo amser hir;
Un nos pan ydoedd ef yn ddwys a syn,
Yn myned drwy y defosiynau hyn,
Ei dad ddeffrôdd. 'Nawr nid oes neb a wâd,
Mai gwr tra ymarferol oedd ei dad.
Cyfarchai Aben Hassan ef gan dd'weyd,
'Fy nhad, chwi welwch fel 'rwyf fi yn gwneyd;
'Rwy'n codi yn y nos—fy arfer yw,—
I ddwys fyfyrio, a moliannu Duw;
Tra mae dy feibion ereill, ow! bob un,
Yn treulio'r nos mewn annghrefyddol hûn;'
Atebai'r tad, 'O! fab fy enaid drud,
Mae'n llawer gwell mewn cwsg i fod yn fud,
Na deffro ganol nos i nodi bai
Dych'mygol ar dy frodyr, anwyl rai.'"

Hanesion.

DYWEDIR fod arwyddion amlwg yn yr Unol Dalaethau fod masnach yn gwella; fod sefyllfa arianol y wlad yn iachach nag y mae wedi bod er ys blynyddau.

Ar y 5ed a'r 6ed o'r mis diweddaf, bu dadl gyhoeddus yn Nottingham, rhwng y Parch. R. A. Armstrong, y gweinidog Undodaidd yn y lle, a Mr. Bradlaugh, bonedd-wrsydd yn ymffrostio yn ei Atheistiaeth. Pwnc y ddadl oedd, A yw yn rhesymol i addoli Duw?

MAE un Mrs. Soule, *Universalist* o'r Amerig wedi pregethu amryw weithiau yn ddiweddar yn rhai o'r capeli Undodaidd yn Lloegr. Nid yw Mrs. Soule, wrth gwrs, ddim wedi darllen cân Amnon ar fenywod yn pregethu. Ond pam, dyweder, na chaiff menywod bregethu, yn enwedig os gallant wneuthur hyny yn well nâ degau o wrywod sydd wrth y gwaith yn barod?

MAE y Parch. William Impey, ar ol gwasanaeth ffyddlon o ddeugain mlynedd i'r Cyfundeb Wesleyaidd, fel Cenadwr yn Affrica, wedi gorfod anfon llythyr o ymddiswyddiad i mewn yn tori y cyssylltiad hir hwnw, yn unig am ei fod ar ol hir a dwys ymchwiliad, wedi dyfod i'r penderfyniad nad oes dim gwir yn athrawiaeth y poenau tragywyddol.

PAM mae yr Americaniaid yn cael y blaen arnom ni mewn gwahanol gyfeiriadau? Yr ydym yn darllen am barti yn cael ei gynnal yn Michigan, a'r elw yn cael ei ranu rhwng yr eglwys Iuddewig a'r eglwys Undodaidd; ac am weinidog Undodaidd a gweinidog Iuddewig yn newid pwlpudau yn Quincy, Illinois. Pam na chaem arwyddion o frawdgarwch tebyg gartref?

MAE y *Record* wedi seinio larwm yr etholiad nesaf. Dywed fod amser y Senedd presenol yn cyflym redeg i ben, a barna y byddai yn fantais fawr i'r blaid eglwysig i gael etholiad yn fuan. Po hwyaf yr oedir mwyaf peryglus y bydd gwaedd dadsefydliad a chydraddoldeb crefyddol. Gelwir ar yr eglwyswyr gan hyny i fod yn barod—gan mai yr unig amddiffynfa yn erbyn ymddygiad chwyldroadol y dosparthiadau gweithiol yw yr un a geir yn Ngheidwadaeth y dosparthiadau gweithiol. Anoga y blaid i wneuthur defnydd o wahanol gyfryngau "cydymdeimlad caredig;" wrth yr hyn mae yn meddwl debygem—votiwch dros eich meistr, neu votiwch dros flancedi gauaf, votiwch dros *soup tickets*.

ONID yw yn syndod gymmaint o dduwinyddion a'i hystyrient yn atheistiaeth i wadu anfeidrol allu neu anfeidrol ddoethineb Duw, ond a'i hystyriant yn heresi i ddywedyd fod ei drugaredd yn anfeidrol? Ie, y mae miloedd ydynt yn teimlo rhyw arswyd wrth sylw John Stuart Mill, nad yw Duw yn hollalluog, ond ydynt yn credu ei sylw arall (o leiaf yn ymarferol, *practically*), nad yw Duw yn holl-gariad. "Yr heresi mwyaf," meddai Cecil, "yw diffyg cariad." Yr heresi duwinyddol mwyaf yw yr un sydd yn priodoli i Dduw ddiffyg cariad. Dywedodd Mr. Moody unwaith, y carai ar brydiau i fyned ar draws y byd i bregethu "Duw cariad yw," a dim arall. Trueni na fuasai.

YR oedd y Parch. Robert Rodolph Suffield, gweinidog gyda'r Undodiaid yn ddiweddar yn Croydon, unwaith yn offeiriad Pabyddol. Mae wedi colli ei iechyd, ac yn awr yn difyru ei hunan wrth ysgrifenu i'r cyfnodolion Seisnig. Ymddangosodd pump erthygl o'i ysgrifell yn ddiweddar yn y *Wesleyan Methodist Magazine*, dan yr enw "Y Pab, y Breninoedd, a'r Bobl." Da genym fod ei lithiau yn cael derbyniad yn y cyfnodolyn hwnw, yr hwn sydd yn awr yn ei 100 oed. Dywed Mr. Suffield fod "Pab rhyddfrydig," hyd y nod yn awr yn y 19eg canrif, yn wrthddywediad mewn geiriau, ac nid yw efe yn dysgwyl ond yr un yspryd a'r un egwyddorion i gael eu gweithio allan yn awr a chynt.

ABERDAR.—Nos Wener, Medi 13eg, 1878, yn yr Hen-dy-Cwrdd, traddodwyd Darlith gan Mr. Jenkin Williams, ar "Lenyddiaeth y Beibl yn nghyd ag hanes y Merthyron." Eglurodd ei ddarlith trwy Ddarluniau *(Maps)*, gan nodi allan lawer o bethau mewn cyssylltiad â'r Beibl, a phethau hynafol ereill gwerth eu cofio a'u hefelychu er mwyn gwybodaeth fuddiol a chyffredinol i'r darllenydd myfyrgar. Etholwyd y Parch. W. James, B.A., i'r gadair, a chyflawnodd ei swydd yn drwyadl. Nid oedd y gynnulleidfa ond bychan iawn mewn cymhariaeth, ac nis gwyr yr ysgrifenydd i beth i briodoli hyny, os nad i wirionedd y geiriau hyny. "A ddichon dim da ddyfod o Nazareth?" Tyred a gwel, ddylasai fod arwyddair pob un, ac yna meddwl wyf na fuasai un siomedigaeth. Diau genyf i bob un oedd yno gael cyflawn foddlonrwydd, pan ystyrir anfanteision y darlithydd i fyned dros faesydd mor helaeth er cyflawnu ei orchwyl.—*Un oedd yno.*

PRIODAS.

Awst 31, 1878, yn Bron Deifi, addoldy yr Undodiaid, Llanbedr, Ceredigion, Mr. David Evans, Gilfach, Llanfihangel Ystrad, â Miss Hannah Jones, ail ferch Mr. Herbert Jones, Coedmawr Isaf, Pencarreg, gan y Parch. Rhys C. Jones, a Mr. John Jones, Cofrestrydd.

"Yn un boed iddynt bellach fod
Ar lwybrau tawel hedd ;
Ac esgyn wnaent i fryniau clod
Yn uchel cyn eu bedd."

"Yn dawel boed byd Dewi,—a'i fun hoff,
I fwynhau'r priodi ;
I'r ddau'n llon doed rhoddion Rhi,
Dywenydd a daioni." TEIFIWYSON

Marwgofion.

Awst 12, yn 25 mlwydd oed, trwy foddiad damweiniol yn Helvotsluis, ger Rotterdam, Mr. David Jenkins, un o ddwylaw'r agerlong "Augusta," o Newcastle, a mab Mr. John Jenkins, Penybryn, Talysarn, Ceredigion. Yr oedd yr ymadawedig yn adnabyddus i luaws o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD. Ychydig gyda blwyddyn yn ol yr oedd yn un o ddysgyblion y Parch. W. Thomas, M.A. Bu ei yrfa forwrawl, i'r hon yr addawai fwy o hyd a diwedd gwahanol, gael ei thori yn fer. Yr oedd yn fachgen tawel a heddychol, ac yn meddu graddau helaeth o gynneddfau meddyliol. Yr oedd y newydd trist am ei farwolaeth yn ergyd trwm i'w berthynasau ac yn enwedig i'w dad. Ychydig feddyliodd wrth gyfansoddi y ddwy linell hyny ar amgylchiad arall y deuent yn ol ato mor nerthol ag yn bresenol—

"Y môr wnaeth ei gymmeryd
A'i enw gawn —dyna 'i gyd !"

Awst 16, 1878, Mr. Thomas Rees, Heol Harriet, Aberdar, yn 67 oed. Y *Dropsy* oedd ei glefyd, ac ni chafodd ond cystudd byr braidd mis o amser cyn i'r hyn oedd fyw ehedeg ymaith. Yr oedd yn ddyn diwyd a sobr trwy ystod ei fywyd ac o rodiad dichlynaidd. Ceffid ef yn barod i wneyd ei ran, er trefn a moesgarwch, mewn teulu a chymdeithas. Bu yn aelod yn yr Hendycwrdd, am flynyddau meithion, ac yn drysorydd dros ugain mlynedd, a chafwyd ef bob amser yn onest, didwyll, a gofalus, heb achos tramgwydd i neb, ond i foddlonrwydd y gynnulleidfa yn wastadol trwy arfer cynnideb o'r fath oraf. Cyrchai yn aml i'r Ysgol Sul, a chymmerai ran a chyfran yn y gwaith da, a chafwyd ef yn yr addoliad y Sul braidd bob Sabboth, fel y teimlir ei le yn wag, ac yn amddifad o'i gyfeillach byth mwy ar y ddaear. Y Llun canlynol, awd ag ef i'r Hendycwrdd, pryd y dechreuwyd gan y Parch. E. W. Lloyd, a chafwyd pregeth adeiladol gan y Parch. W. James, B.A., i dyrfa luosog, pryd y dangosodd mai gwers oedd bywyd i bob dyn i barotoi i gael mynediad helaeth i'r trigfanau dedwydd tu hwnt i angeu a'r bedd. Wedi hyn, hebryngwyd ef tua'r gladdfa newydd. Gadawodd weddw unig ar ei ol ac amryw berthynasau ereill pell ac agos, ond bydded iddynt gymmeryd cyssur yn efengyl tangnefedd Iesu Grist, ac i ymbarotoi i gyfarfod yr un dynged. Heddwch i'w lwch.

Ffarwel Thomas, anwyl gyfaill,
Ti'n gadewaist do i'r bedd,
Ar dy ol y deuwn ninau,
I'r un fan yn wael ein gwedd ;
Gwell i'n geisio'r rhan na ddygir
Byth oddiarnom, 'nawr yw'r pryd,
Cyn tywylla haul ein bywyd,
Dyna'r elw mwya' i gyd.
EIDDIL CYNON.

Mehefin 10, Mr. John Davies, Blaenbydernun, Pencarreg, yn 55 mlwydd oed. Mab ydoedd i'r hen Ddr. Davies, a brawd i'r diweddar D. D. Davies, Ysw., M.R.C.S., Llanbedr. Yr oedd J. Davies yn ddyn call, pwyllog, ac yn llawn tymher dda bob amser, ac yn awyddus ar bob adeg i wneuthur lles i bawb yn gyffredinol. O ran ei olygiadau crefyddol, yr oedd yn Undodwr trwyadl, a di-lol, ac hyd y bu yn alluog yn aiddgar dros eu lledaeniad. Gweinyddwyd yn y tŷ, ar foreu'r cynhebrwng, gan y Parchn. J. Davies, Alltyplaca, a S. Thomas, (B.), Aberduar. Pregethodd y cyntaf yn hynod bwrpasol oddiar 1 Ioan ii. 17. Yna cludwyd ef gan dorf luosog iawn o'i gyfeillion, a'i berthynasau i'w argel wely i fynwent Eglwys y Plwyf. Teimlir y golled o'i ol yn fawr, ac yn helaeth yn ei hen ardal enedigol. Gadawodd fam oedranus, chwiorydd, priod, a phlant i deimlo y golled yn drwm ar ei ol, ond bydded iddynt ystyried fod y cyfan yn iawn. G.

Mehefin 11eg, yn 5 mlwydd oed, o'r dwymyn goch, William, anwyl blentyn Mr. Evan Williams, Pentrerhys, plwyf Llanwenog. Claddwyd y bychan yn mynwent eglwys Llanwnen, a gweinyddwyd ar yr achlysur yn y tŷ gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, ac yn yr eglwys gan y Vicar.

Barddoniaeth.

EMYNAU YR YSGOL SUL.

I.

Wele blant yr Ysgol Sul yn dod
Ger dy fron â'u per ganiadau ;
O Dduw, gwrando'u tyner leisiau,
Tra'n dyrchafu i Ti eu mawl a'u clod.

Molwn a bendithiwn Di, ein Tad,
Am it' o'th drugaredd roddi
'R Iesu, yn arweinydd ini,
Er ein tywys oll i'r nefol wlad.

Ar ei ol yr elom tra f'om byw,
Rhoi 'n calonau iti wnelom,
Fel efe, hyd oni welom
Harddwch iechydwriaeth deg ein Duw.

O, bendithia'r plant o hyn i ma's—
Ceisio wnelont fyth dy garu ;
A thrwy ddylyn camrau'r Iesu
Dyfu mewn doethineb ac mewn gras.

II.

O, ein Tad, edrychwn atat Ti ;
Mwyn a gostyngedig byddom ni ;
Llid a balchder fyddont oll yn mhell,
A phob un dan nawdd yr yspryd gwell.

Dysg in' mewn gweddio i barhau,
Ac i'n rhiaint anwyl ufuddhau ;
A rho iddynt hwy tra ar y llawr
Holl fendithion goreu'th gariad mawr.

Caffer gweddi genym, Nefol Gun,
'N hoffaf o'r pleserau bob yr un ;
Caru'r Sabboth wnelom, caru'r lle
'Cawn ein dysgu am y ffordd i'r ne'.

A thra'r ydym ar y ddae'r yn byw,
Pura'n calon, maddeu in', O Dduw ;
Ac i bob daioni, arwain ni,
Fel y byddom ffyddlon blant i Ti.

III.

A gawn ni oll gyd-drigo,
Fel triga plant yn nhre,
A phob un fod yn ddedwydd
Heb dristwch yn y lle ;

Holl lwythau du gwasgarog
Ynysoedd pella'r mor,
A llwythau gwyn anialdir
Y pell hinsoddau o'r ?

O cawn, caiff pawb gyd-drigo—
Dont o'r pellderau draw,
Pawb fu'n gwasanaethu'r Iesu
A chalon, tafod, llaw.

O cawn, ni gawn gyd-drigo,
Fel triga plant yn nhref,
A bod yn berffaith ddedwydd
Pan ddown i deyrnas nef.

IV.

Cornant ar ei thaith,
Dyfa'n fwy o hyd ;
Ac fel cân, seinia'n mlaen
Drwy ei thaith i gyd.

Weithiau'n loyw iawn
Rhed ei thaith i ben ;
A nyni ar fron y lli
Welwn yno'r nen.

F' enaid fyth fel hyn—
Tyf yn fwy bob dydd ;
Felly 'th gân wrth fyn'd yn mlaen
Seinio'n beraidd fydd.

Fel y gloyw ddwr,
Byddwyf byth yn bur ;
Fel 'n y lli', caer ynof fi
Wel'd y nef yn glir.

V.

Dafnau bach y dyfroedd,
A'r gronynau gro,
Wnant i fyny'r moroedd
A phob bryn a bro.

A gwna'r mân funydau,
Lleied yw eu taith,
Anfesurol oesau
Tragwyddoldeb maith.

Felly 'r beiau bychan,
A gyflawnwn oll,
Ydynt yn ein harwain
Lawr i lwybrau'r coll.

Gwna gweithredoedd mwynaidd,
A gwna geiriau cu,
'R ddae'r yn Baradwysaidd
Fel y nefoedd fry.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &C., ABERDAR.

TALIADAU.

W. L., Pontypridd; Mrs. R., London; J. G. E., Preston.

TALIADAU.—O herwydd ddiffyg yn y taliadau yn unig mae tynged yr YMOFYNYDD mewn perygl. Mae amryw o'n prif ddosparthwyr nad ydynt wedi anfon un taliad i mewn er ys llawer dydd, un neu ddau dros flwyddyn. Y canlyniad yw fod *bill* yr argraffydd yn mhell uwchlaw y derbyniadau oddiwrth y dosparthwyr. Ni all peth fel hyn fyned yn mlaen yn hir; ac er mwyn i'r YMOFYNYDD barhau i wneuthur ei ymddangosiad, yr ydym yn galw yn daer am ddiwygiad.

Y CWRDD CHWARTEROL.

Cynnelir y Cwrdd Chwarterol nesaf yn Nghapel y Cri[illegible], Ceredigion, ar y Mercher a'r Iau cyntaf yn Hydref. Y gwasanaeth i ddechreu am 6 prydnawn dydd Mercher, ac am 10 boreu dydd Iau. Taer erfynia'r gweinidog oedranus am bresenoldeb yr oll o'r gweinidogion yn y Cyfarfodydd, gan mai hwy, yn debygol, fyddant yr olaf o dan ei weinidogaeth ef. Y pregethwr boreu dydd Iau: Y Parch. W. James, B.A., Aberdar.

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD.

Mae y llyfr bellach yn barod. Mae wedi myned ychydig yn fwy nag yr amcanwyd iddo, ac felly bydd yn rhaid i'r pris fod yn fwy. Ei bris, mewn amleni papyr, fydd 2s.; wedi ei rwymo mewn llian, 2s. 6ch. Rhoddir y seithfed i'r Dosparthwyr—telerau tecach i gynnulleidfaoedd yn cymmeryd hanner cant ac uchod, os talant am danynt o fewn mis.

YR HELBUL YN LLWYNRHYDOWEN.

GALW I MEWN Y CYFRANIADAU.

Dymunir yn barchus ar bwy bynag sydd wedi bod mor garedig ag addaw cyfranu at y capel newydd, ac heb dalu i mewn eu haddewidion, i wneyd hyny yn ddioed i *Mr. John Jones, Solicitor, Llandyssul*, mewn *Cheques* neu *Post Office Orders*. Derbynir hefyd bob cyfraniadau ychwanegol yn ddiolchgâr. Mae y capel yn prysur fyned rhagddo, a bydd yn fuan dan dô. WM. THOMAS.

GIRLS' SCHOOL,

RICHMOND VILLA, LLANDYSSUL,

CONDUCTED BY MRS. WILLIAM THOMAS AND HER SISTER, MISS WILLIAMS.

Day-Pupils and Boarders, are received. Terms moderate. and to be had on application. Pupils prepared for the Oxford and Cambridge Examinations.

AT EIN DARLLENWYR.

TELERAU.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—Rev. W. James, B.A., Park Lane, Aberdare.

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Myrtle Cottage,
Aberdare.